Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MAWRTH, 26 TACHWEDD 2013 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | TUESDAY, 26 NOVEMBER, 2013 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes (01248) 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

W.T.Hughes, Gwilym O.Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees (Cadeirydd/Chair), Peter Rogers

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gwag/Vacant (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Bethan Ll.Jones (Ysgol y Graig) Lle gwag/Vacant Place (Penaethiaid Uwchradd/Secondary Headteachers)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Mrs Helen Roberts (Prifysgol Bangor University)
Y Parch./Rev. Elwyn Jones (Cyngor yr Ysgolion Sul/Sunday Schools Council)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 28 Mehefin i gael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

3 **MATERION YN CODI** (Tudalennau 7 - 30)

- Ysgolion lle bo'n berthnasol wedi eu hatgoffa am yr angen i gyflwyno adroddiad hunan arfarnu.
- Gwefan Addysg Grefyddol *(Copi ynghlwm)*
- Cefnogaeth gan y GwE
- Adroddiad Estyn ar Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd wedi'i ddosbarthu i'r ysgolion ar 5 Medi, 2013 *(Copi ynghlwm)*
- Adolygiad o Bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN 2012/13** (Tudalennau 31 - 52)

Cyflwyno drafft o Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn am 2012/13.

5 **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 53 - 66)

- Asesiadau Athrawon CA3 (Haf 2013) a Chanlyniadau Arholiadau Allanol (Haf 2013)
- Adroddiadau arolygiadau mewn perthynas ag Ysgol Cemaes; Ysgol Corn Hir, Ysgol Moelfre ac Ysgol Llaingoch *(Copi o adroddiad y Swyddog Addysg ynghlwm)*
- Hunan Arfarniad Ysgol Uwchradd Bodedern *(Copi ynghlwm)*
- Trefniadau ar gyfer monitro Safonau AG ac addoli ar y cyd i'r dyfodol *(Papur ynghlwm)*

6 **CEFNOGAETH Y GWASANAETH YMGYNGHOROL**

Derbyn diweddariad ar y gefnogaeth a roddwyd.

7 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 67 - 92)

- Cyflwyno rhaglen a phapurau cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 10 Hydref, 2013 ynghyd â diweddariad ar lafar o drafodaethau'r cyfarfod.
- Cyflwyno'r Adroddiad y Trysorydd am 2012/13.
- Cyflwyno adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithasol am 2012/13.

8 **GOHEBIAETH**

Derbyn diweddariad ar ohebiaeth a dderbyniwyd *(Gweler adroddiad y Swyddog Addysg o dan eitem 5)*

**9 <u>CYFARFOD NESAF Y CYSAG</u>**

2:00 o’r gloch y prynhawn, dydd Mawrth, 18 Chwefror, 2014.

This page is intentionally left blank

## Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol(CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Rheinallt Thomas (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)(Yn y Gadair) |
| | **Yr Awdurdod Addysg** |
| | Y Cynghorwyr Jim Evans, W.T. Hughes, R.Ll Jones, Alun W Mummery a Dylan Rees |
| | **Enwadau Crefyddol** |
| | Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr)<br>Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) |
| | **Athrawon** |
| | Mrs Bethan Ll.Jones (Ysgol y Graig) |
| **WRTH LAW:** | Mr. D. Gareth Jones (Swyddog Addysg Gynradd)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU** | Stephen Francis Roe, Mefys Edwards, Alison Jones, Martin Wise a'r Parchedig Elwyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Miss Bethan James(GwE) |

---

**1** **CADEIRYDD**

Rhoddwyd sylw i ethol Cadeirydd ar gyfer y CYSAG. Dywedodd yr Is-Gadeirydd cyfredol wrth yr Aelodau bod cyrff CYSAG Gwynedd ac Ynys Môn wedi cadw'r hawl i ethol Cadeirydd o blith aelodau etholedig yr Awdurdodau Addysg Lleol ar y fforwm CYSAG ac y byddai cynnig fel arall yn anghyfansoddiadol. Ymhellach, yn hanesyddol penodwyd y Cadeirydd trwy gonsensws gan yr AALl.

**Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gohirio ethol Cadeirydd i ganiatáu i gynrychiolwyr yr Awdurdodau Addysg Lleol ddod i gytundeb ynghylch penodi Cadeirydd ar gyfer y CYSAG.**

**2** **IS-GADEIRYDD**

Ailetholwyd Mr Rheinallt Thomas, Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Is-Gadeirydd ar gyfer y CYSAG.

**3** **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**4** **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2013 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

Materion yn codi -



DRAFT

- Cyfeiriodd y Swyddog Addysg at y tair ysgol gynradd nad oedd eu dogfennau hunanarfarnu Addysg Grefyddol wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf, a dywedodd wrth yr aelodau fod hunanarfarniad Ysgol Penysarn (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) bellach wedi cyrraedd. Eglurodd yn gryno mai trwy archwilio adroddiadau hunanarfarnu AG y gofynnir i ysgolion yr ynys eu darparu y mae'r CYSAG yn cyflawni ei swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â safonau Addysg Grefyddol ac ansawdd addoli ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau hunanarfarnu Ysgol y Fali ac Ysgol Pentraeth wedi dod i law. Ychwanegodd y Swyddog fod adroddiadau hunanarfarnu Ysgol Gynradd Llanbedrgoch ac Ysgol Tywyn a arolygwyd yn nhymor yr Hydref 2012 bellach wedi dod i law ac fe'u cyflwynwyd fel rhan o'r materion yn codi. Yn unol â'r patrwm a welwyd eisoes, mae peth amrywiaeth o ran ansawdd a chynnwys y wybodaeth a gyflwynir gan yr ysgolion yn eu hunanarfarniadau a dim ond un o'r ysgolion sydd wedi mabwysiadu model Ysgol Corn Hir.

  Pwysleisiodd yr Is-Gadeirydd ei bod yn hanfodol bod y CYSAG yn cael y wybodaeth hon oherwydd mai dyma'r unig ffordd sydd gan y CYSAG ar hyn o bryd i gyflawni ei gyfrifoldebau monitro. Dywedodd y Swyddog Addysg y byddai'n parhau i fynd ar drywydd y mater hwn gyda'r ddwy ysgol nad ydynt wedi cyflwyno eu hunanarfarniadau, ond roedd yn credu bod amgylchiadau lliniarol o ran pam nad oedd yr adroddiadau wedi eu cyflwyno i'r CYSAG ac esboniodd yr amgylchiadau hynny i'r Aelodau.

  Nodwyd y wybodaeth gan Aelodau'r CYSAG ynghyd â'r sefyllfa mewn perthynas â'r ddwy ysgol nad oedd eu hunanarfarniadau wedi dod i law hyd yma.

  **Cam Gweithredu yn codi: Y Swyddog Addysg i barhau i wneud ymholiadau ynghylch yr adroddiadau hunanarfarnu nad ydynt wedi eu cyflwyno i'r CYSAG hyd yma.**

- Dygodd y Swyddog Addysg sylw'r Aelodau at ymateb Prif Arolygydd Estyn i ohebiaeth a anfonwyd ati yn dilyn cyfarfod diwethaf CYSAG i ddwyn sylw at gamgymeriadau yn adroddiad yr Arolygydd ynghylch Ysgol Tywyn mewn perthynas â'r defnydd o derminoleg yr oedd y CYSAG wedi nodi. Yn ei hymateb mae'r Prif Arolygydd yn cyfeirio at ganllawiau atodol Estyn ar gyfer Arolygwyr mewn perthynas ag addoli ar y cyd a'r ffaith bod y canllawiau'n gwahaniaethu rhwng addoli ar y cyd a gwasanaethau boreol a'r ffaith y gall gwasanaethau boreol ymgorffori gweithred o addoli ar y cyd. Mae'r canllawiau hefyd yn dwyn sylw at y berthynas rhwng addoli ar y cyd a datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol. Nid oes rhaid i Arolygwyr gyfeirio at addoli ar y cyd mewn adroddiadau arolygu ac eithrio lle nad yw'r ysgol dan sylw yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol yn y cyswllt hwn neu os yw'r gwasanaethau boreol neu'r gweithredoedd addoli ar y cyd yn cyfrannu'n sylweddol at les y disgyblion. Os rhoddir barn mewn adroddiad arolygu mae'n bwysig defnyddio'r termau cywir. Mae'r Prif Arolygydd yn gwahodd y CYSAG i gyflwyno i sylw'r corff arolygu unrhyw adroddiadau eraill y mae'n credu, ar sail y canllawiau, eu bod yn cynnwys anghysonderau a dywedodd y bydd y canllawiau atodol mewn perthynas ag arolygu addoli ar y cyd yn cael eu newid i gynnwys cwestiwn cyffredinol ar y mater.

  Nododd Aelodau'r CYSAG ymateb y Prif Arolygydd a'r sylwadau a wnaed.

  **Cam Gweithredu yn codi: Bod y CYSAG yn parhau i fonitro adroddiadau arolygu ar gyfer cysondeb yn y defnydd o derminoleg.**

- Cyflwynodd y Swyddog Addysg ohebiaeth ddyddiedig 14 Mehefin 2013 gan Ysgol Coleg y Drindod Dewi Sant er gwybodaeth. Roedd yr ohebiaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i lansio'r wefan Addysg Grefyddol ar gyfer Cymru fel adnodd dwyieithog ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Fel yr adroddwyd i'r cyfarfod o'r CYSAG ar 13 Mawrth mae'r wefan yn disodli'r Newyddlen Addysg Grefyddol. Aeth y Swyddog ymlaen i ddweud bod y llythyr yn rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod am fynediad i'r wefan fel tanysgrifiwr ac yn gofyn iddo rannu gwybodaeth am y wefan gyda'r holl bartïon sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol gan gynnwys ysgolion, ymgynghorwyr ac Aelodau'r CYSAG.

DRAFT

Dywedodd Miss Bethan James y byddai'n annog athrawon i gyfrannu erthyglau a gwybodaeth am brosiectau ac arferion da i'r wefan fel bod modd eu rhannu gydag ymarferwyr AG eraill sy'n defnyddio'r wefan. Dywedodd bod sgôp arbennig i'r wefan adlewyrchu'r cwricwlwm Cymraeg a'r diwylliant Cymreig.

**Cam Gweithredu yn codi: Bod y Swyddog Addysg yn rhannu gwybodaeth ynghylch gwefan AG Cymru gydag ysgolion yr Ynys a staff perthnasol.**

- Dygodd y Swyddog Addysg sylw'r Aelodau at wybodaeth a gafwyd gan Gydgysylltydd Addysg Cymru yn y sefydliad Cymorth Cristnogol ynghylch gwasanaethau mis Gorffennaf y sefydliad a'r gweithgareddau cysylltiedig, ynghyd ag adroddiad y Grŵp Cristnogion yn y Senedd o'r enw Ffydd yn y Gymuned.

  Nodwyd y wybodaeth gan y CYSAG.

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYMDEITHAS CYSAG YNYS MÔN 2011/12

Cyflwynwyd fersiwn swyddogol Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2011/12 ac fe'i nodwyd er gwybodaeth yn unig.

## 6 SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL AC ADDOLI AR Y CYD

Dywedodd y Swyddog Addysg wrth Aelodau'r CYSAG fod un ysgol, sef Ysgol Llanfachraeth, wedi ei harolygu yn ystod tymor y Gwanwyn a bod yr adroddiad arolygu'n dda. Yng nghyd-destun Addysg Grefyddol, dywed yr Arolygydd bod yr ysgol *yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion ac sy'n cwrdd â gofynion y cyfnod sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac Addysg Grefyddol yn llawn.* Gan gyfeirio at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion, mae'r arolygydd yn disgrifio'r ysgol fel *cymuned gyfeillgar a gofalgar a bod yr holl staff yn hyrwyddo gwerthoedd uchel. Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol yn effeithiol.* Dywedodd y Swyddog nad oedd unrhyw argymhellion yn codi o'r adroddiad arolygu mewn perthynas ag AG ac/neu addoli ar y cyd.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r wybodaeth a llongyfarchwyd holl staff a disgyblion Ysgol Llanfachraeth ar eu llwyddiant.

**Cytunwyd i dderbyn a nodi'r wybodaeth.**

**Cam Gweithredu yn codi: Bydd y Swyddog Addysg yn anfon llythyr ar ran y CYSAG i Bennaeth Ysgol Llanfachraeth i gydnabod ymdrechion a llwyddiant yr ysgol fel yr adlewyrchwyd hynny yn adroddiad Estyn.**

## 7 SUT GALL Y CYSAG GYFLAWNI EI GYFRIFOLDEBAU YN Y DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Addysg adroddiad briffio yr oedd wedi ei anfon at bob un o Benaethiaid ysgol Ynys Môn yn gofyn am sylwadau ar gynnig i gynorthwyo'r CYSAG i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran monitro safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion lle byddai CYSAG yn casglu adroddiadau hunanarfarnu o fewn cylch 3 blynedd a fyddai'n golygu y byddai ysgolion unigol yn cyflwyno adroddiad i'r CYSAG bob tair blynedd yn seiliedig ar y patrwm a awgrymir yn yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog bod penaethiaid cynradd wedi ystyried y cynnig a'u bod yn barod i'w fabwysiadu ond y byddent yn gwerthfawrogi cael rhybudd o ba bryd y byddai angen yr adroddiadau. Nid oedd penaethiaid uwchradd wedi ystyried y mater hyd yma. Y bwriad oedd y byddai'r Swyddog Addysg yn cydgysylltu gydag 16 o ysgolion cynradd a dwy ysgol uwchradd bob blwyddyn i ofyn iddynt gyflwyno adroddiadau hunanarfarnu i'r CYSAG. Dywedodd Miss Bethan James fod y cynnig yn golygu y byddai'r CYSAG yn gallu archwilio 5 adroddiad hunanarfarnu bob blwyddyn ac y gallai hefyd ystyried gwahodd pennaeth i annerch y CYSAG yn y mis dilynol.

**Cytunwyd i dderbyn y cynnig fel ffordd o gynorthwyo'r CYSAG i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran monitro safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn ysgolion Ynys Môn.**

DRAFT

**Cam Gweithredu yn codi: Bod y Swyddog Addysg yn gweithredu'r system yn amodol ar gael cytundeb y penaethiaid uwchradd.**

Rhoddodd Miss Bethan James gyflwyniad i'r Aelodau ar fodel drafft ynghylch sut y gallai'r CYSAG fonitro safonau o gofio, dan y system newydd dan y GwE, nad oes unrhyw gyfrwng i swyddogion gysylltu gydag ysgolion i bwrpas rhoi atborth i'r CYSAG ar y ddarpariaeth o Addysg Grefyddol a'r trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd. Cyfeiriodd at yr ystyriaethau isod:

- Sut y gall y CYSAG gasglu gwybodaeth a'r ffynonellau sydd ar gael.
- Y pro fforma hunanarfarnu y mae'r CYSAG wedi ei fabwysiadu i gael gwybodaeth gan ysgolion ar eu hunanasesiad o'r canlyniadau mewn Addysg Grefyddol; ansawdd y ddarpariaeth AG ac ansawdd y trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd.
- Yr angen i hunanarfarniadau ysgolion adlewyrchu'r iaith arolygu yn y defnydd o ymadroddion gwerthuso ac i adlewyrchu dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan Estyn trwy gyfeirio a chyfrannau
- Cyhoeddiadau sydd wedi eu dylunio i gefnogi athrawon yn eu dealltwriaeth o safonau a gweithgareddau AG.
- Holiadur y gofynnodd i Aelodau'r CYSAG ei gwblhau i ddangos eu dealltwriaeth o AG a sut y gellid monitro safonau.
- Yr adolygiad thematig o Addysg Grefyddol a gynhaliwyd gan Estyn yn seiliedig ar sampl o ysgolion trwy Gymru(nid oedd ysgolion o Wynedd ac Ynys Môn yn rhan o'r sampl) a oedd yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth AG yn CA3 a'r ddarpariaeth AG statudol i ddisgyblion 14-16 oed, o dan y teitl Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd. Mae'r adroddiad yn gwneud chwe argymhelliad yn benodol ar gyfer ysgolion a dau ar gyfer Llywodraeth Cymru.

- Aeth Miss Bethan Jones ymlaen i ddiweddaru Aelodau'r Cysag ar y sefyllfa mewn perthynas â'r Marc Ansawdd ar gyfer AG. Mae'r system marc ansawdd wedi ei datblygu yn Lloegr a rhoddwyd caniatâd i addasu'r meini prawf ar gyfer Cymru ac mae Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi cytuno i wneud y gwaith hwn. Dywedodd y Swyddog ei bod yn ffordd i'r ysgolion gael cydnabyddiaeth allanol am eu gwaith yn y maes AG a'i fod yn declyn defnyddiol o ran hunanarfarnu. Mae ffi o gwmpas £400 i £500 yn daladwy ar gyfer yr achrediad ac unwaith y mae'r ysgolion wedi bod trwy'r broses maent yn gymwys i weithredu fel achredwyr eu hunain.

- Cadarnhaodd Miss Bethan James y byddai Cynhadledd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynnal yn Nhrefforest, Caerdydd ar 10 Hydref, 2013.

Rhoddodd Aelodau'r CYSAG sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd a chanolbwyntiodd y drafodaeth wedyn ar argaeledd cymorth proffesiynol i'r CYSAG dan y corff rhanbarthol GwE newydd i'w gynorthwyo i gyflawni a chwrdd â'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag AG ac addoli ar y cyd a ffurf a natur bosib y gefnogaeth honno. Rhodwyd gwybod i'r Aelodau fod y trefniadau cefnogaeth ar gyfer CYSAGau Gwynedd ac Ynys Môn yn parhau i fod dan drafodaeth. Rhoddodd yr Aelodau sylw i fodelau posib ac roedd consensws fod corff CYSAG Ynys Môn o'r farn ei fod angen cefnogaeth trwy atborth o ymweliadau ysgol iddo fel y gall gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Cytunwyd felly y byddai'r CYSAG yn gofyn i'r AALl ymdrechu i sicrhau fod y trefniadau cefnogaeth broffesiynol y mae'n eu comisiynu gan y GwE ar gyfer y corff CYSAG yn cynnwys cyswllt swyddogion gydag ysgolion. Roedd yr Aelodau yn awyddus iawn i roi gwybod i'r ysgolion uwchradd am argymhellion yr adroddiad adolygiad thematig gan Estyn ar AG mewn ysgolion uwchradd ac yn awyddus iddynt hefyd roi sylw i'r argymhellion ynddo. Awgrymodd y Swyddog Addysg bod y pum pennaeth uwchradd yn trafod yr argymhellion ar y cyd.

Trafododd yr Aelodau gynrychiolaeth y CYSAG ar Gynhadledd Cymdeithas CYSAGau Cymru Gyfan ym mis Hydref. Cytunwyd y byddai'r Athro Euros Wyn Jones yn mynychu ar ran y Grŵp Enwadau Crefyddol ac y byddai'r Cadeirydd yn cynrychioli grŵp Aelodau Etholedig yr AALl unwaith y caiff ei benodi/phenodi.

**Cytunwyd i –**

- **Nodi'r datblygiad hyd yma.**



DRAFT

- **Gofyn i'r AALl geisio sicrhau bod y trefniadau cefnogaeth broffesiynol y mae'n eu comisiynu gan y GwE ar gyfer y CYSAG yn cynnwys cyswllt swyddogion gydag ysgolion.**
- **Gofyn i'r Swyddog Addysg ddwyn sylw ysgolion uwchradd yr Ynys at y chwe argymhelliad perthnasol sy'n codi o Adolygiad Thematig Estyn o AG mewn ysgolion uwchradd, gydag argymhelliad bod y Penaethiaid Uwchradd yn cyfarfod i ystyried yr argymhellion.**
- **Bod yr Athro Euros Wyn Jones yn mynychu Cynhadledd CySAGau Cymru ym mis Hydref 2013 ar ran y Grŵp Enwadau Crefyddol ac y byddai'r Cadeirydd yn cynrychioli Aelodau Etholedig yr AALl unwaith y caiff ei benodi/phenodi.**

**Camau Gweithredu'n codi:**

- **Bod y Swyddog Addysg yn rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes am ddymuniadau'r CYSAG mewn perthynas â natur y trefniadau cefnogaeth broffesiynol ar gyfer y corff.**
- **Bod y Swyddog Addysg yn anfon gwybodaeth am argymhellion Adolygiad Thematig Estyn ynghylch AG mewn ysgolion uwchradd i benaethiaid uwchradd yr Ynys gydag argymhelliad eu bod yn cwrdd i drafod yr argymhellion mewn perthynas â'r ysgolion.**

## 8 CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU GYFAN (CCYSAGauC)

Cyflwynwyd a nodwyd cofnodion ac adroddiadau cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru Gyfan a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2013.

Er nad oedd wedi mynychu cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ar 19 Gorffennaf roedd yn gallu cyflwyno gwybodaeth ynghylch y prif bwyntiau trafod o'r cyfarfod fel y cawsant eu cyfleu gan unigolyn arall a fu'n bresennol yn y cyfarfod. Roedd y rhain yn cynnwys y marc ansawdd AG ac Adolygiad Thematig Estyn o AG mewn ysgolion uwchradd fel y trafodir uchod. Yn ogystal, cyflwynwyd ac ystyriwyd ymateb y Gweinidog ar gyfer Addysg a Sgiliau i ohebiaeth a anfonwyd ato mewn perthynas â'r diffyg sylw a roddwyd i AG yn yr adolygiad cyfredol o'r cwricwlwm. Yn ei ymateb, mae'r Gweinidog yn pwysleisio mai dim ond y pynciau hynny yn y cwricwlwm cenedlaethol sy'n destun adolygiad ar hyn o bryd; ei fod yn argyhoeddiedig bod gan AG rôl allweddol i'w chwarae o ran datblygu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion; y bydd cyrff CYSAGau yn cael eu ychwanegu at y rhestr ddosbarthu ar gyfer yr adroddiad adolygu ac y byddai'n croesawu atborth gan gyrff CYSAGau o ran mabwysiadu ei argymhellion.

Rhoddodd yr Is-Gadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r CYSAG ar benodiadau i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru ac i swyddi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

**Dim cam gweithredu pellach yn codi.**

## 9 ADOLYGU'R MAES LLAFUR CYTÛN LLEOL

Dywedodd yr Is-Gadeirydd wrth Aelodau'r CYSAG bod Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi awgrymu y dylid gohirio adolygiad o'r maes llafur cytûn hyd nes y bydd adolygiad o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi ei gwblhau.

Ar ran y grwpiau Enwadau Crefyddol cynigiodd yr Athro Euros Wyn Jones y dylid dilyn yr awgrym hwn ac fe'i eiliwyd gan Mrs Bethan Ll. Jones ar ran y grŵp Athrawon. Fel cynrychiolydd grŵp aelodau etholedig yr AALl nododd y Cynghorydd Alun Mummery ei fod yn cytuno gyda'r cynnig.

**Cytunwyd i ohirio'r adolygiad o'r Maes Llafur Cytûn hyd nes y bydd yr adolygiad cyfredol o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi ei gwblhau.**

**Dim cam gweithredu bellach yn codi.**



DRAFT

## 10 LLAWLYFR AR GYFER AELODAU'R CYSAG

Cylchredwyd gwybodaeth ynghylch llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru fel rhan o'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod. Cadarnhaodd y Swyddog Pwyllgor bod aelodau etholedig yr AALL sy'n newydd i'r CYSAG wedi cael copi o'r llawlyfr yn uniongyrchol.

**Dim cam gweithredu'n codi.**

## 11 CYFARFOD NESAF Y CYSAG

Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y CYSAG yn cael ei gynnal am 2pm ar ddydd Mawrth 8 Hydref 2013.

**Mr Rheinallt Thomas**
**(Is-Gadeirydd yn y Gadair)**

DRAFFT

# Herio Materion Crefyddol

Cylchgrawn ar-lein newydd sy'n ategu Astudiaethau Crefyddol Lefel A, ar gyfer myfyrwyr ac athrawon.

- Mae'r erthyglau wedi eu hysgrifennu gan ysgolheigion ac ymarferwyr blaenllaw
- Ymdrinnir ag amrywiaeth eang o ddewisiadau AS ac A2 poblogaidd
- Cynhwysir gweithgareddau a chysylltau byw â gwefannau a argymhellir
- Caiff y cylchgrawn ei gyhoeddi bob tymor

Mae'n bosib cael mynediad i *Herio Materion Crefyddol* AM DDIM trwy Hwb Cymru https://hwb.wales.gov.uk
neu drwy Ganolfan y Santes Fair
http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/Aleveljournal.html

**Caiff y cylchgrawn ei noddi gan Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi gan Ganolfan y Santes Fair a Sant Silyn.**

This page is intentionally left blank

Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd

## Mehefin 2013

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Iechyd ar Waith

Health at Work

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn arolygu'r sectorau canlynol:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Safonau mewn addysg grefyddol** | **7** |
| Safonau cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 3 | 7 |
| Safonau cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 | 7 |
| Safonau cyflawniad | 9 |
| Cyfranogiad ac ymgysylltiad mewn dysgu | 11 |
| **Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau mewn addysg grefyddol** | **13** |
| Addysgu ac asesu | 13 |
| Cynllunio'r cwricwlwm | 16 |
| Arweinyddiaeth, rheolaeth a gwella ansawdd | 19 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | |

## Cyflwyniad

Lluniwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2012-2013. Mae'n deillio o sail y dystiolaeth a amlinellir yn Atodiad 1.

Mae'r adroddiad yn ymdrin â deilliannau, gan gynnwys safonau, mewn addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, cyrhaeddiad mewn astudiaethau crefyddol TGAU, a chyfranogiad ac ymgysylltiad mewn dysgu. Mae hefyd yn ymdrin â'r ffactorau sy'n effeithio ar safonau, gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm, addysgu, asesu, arweinyddiaeth, gwella ansawdd a dylanwadau allanol.

Bydd yr adroddiad o ddiddordeb i athrawon addysg grefyddol, penaethiaid adran ac uwch reolwyr mewn ysgolion uwchradd. Bydd hefyd o ddiddordeb i awdurdodau lleol a'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau)[1].

## Cefndir

Mae'r gyfraith yn mynnu bod rhaid i bob ysgol uwchradd ddarparu addysg grefyddol ar gyfer pob un o'i disgyblion fel gofyniad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Rhaid i ysgolion hefyd ddarparu addysg grefyddol ôl-16, er nad yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â deilliannau a darpariaeth yn y cyfnod hwn. Rhaid i'r ddarpariaeth hon ddilyn y maes llafur cytûn lleol perthnasol ar gyfer addysg grefyddol[2].

Mae addysg grefyddol yn annog disgyblion i archwilio credoau crefyddol, athrawiaethau ac arferion, a'u heffaith ar fywyd bob dydd. Wrth wneud hynny, mae'n ystyried ystod o gwestiynau athronyddol, diwinyddol, moesegol ac ysbrydol mewn modd myfyriol, dadansoddol a chytbwys.

Datblygwyd y 'Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru' gan Lywodraeth Cymru yn 2008 ochr yn ochr â'i adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Nod y fframwaith oedd gwella safonau addysg grefyddol yn genedlaethol trwy ddarparu cwricwlwm cydlynus a fframwaith asesu i Gymru. Mae'n cynnwys rhaglenni astudio enghreifftiol ar gyfer pob cyfnod allweddol, ynghyd â disgrifiadau lefelau ar gyfer perfformiad disgyblion. Newidiodd awdurdodau lleol a CYSAUgau eu meysydd llafur cytûn lleol i ystyried y fframwaith.

Mae cymeriad crefyddol gan rai ysgolion ac addysgant 'addysg enwadol' fel math penodol o addysg grefyddol. Nid yw addysg enwadol yn dilyn y maes llafur a gytunwyd yn lleol, ond yn hytrach mae'n dilyn maes llafur a bennwyd gan yr ysgol

---

[1] Mae CYSAGau yn gyfreithiol gyfrifol am gynghori awdurdodau lleol ar addysg grefyddol a chyd-addoli. Rhaid i bob awdurdod lleol fod â CYSAG.
[2] Mae'r maes llafur cytûn lleol ar gyfer pob awdurdod lleol ar gael gan Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol Cymru: http://www.wasacre.org.uk/publications/cym-syllabi.html

unigol neu'r grŵp o ysgolion sydd â chymeriad crefyddol penodol. Nid yw Estyn yn arolygu addysg enwadol fel rhan o'i arolygiadau arferol o ysgolion, gan y caiff ei harolygu ar wahân gan arolygwyr a benodir gan gorff llywodraethol yr ysgol. Ni chafodd ysgolion sy'n darparu addysg enwadol eu cynnwys felly yn y sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn.

Y ddau brif gymhwyster astudiaethau crefyddol y bydd ysgolion yn cofrestru eu disgyblion ar eu cyfer yw: y cwrs TGAU llawn a'r cwrs TGAU byr (sy'n werth hanner TGAU llawn). Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dewis dilyn y cwrs byr fel rhan o'u dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4 ond disgwylir iddynt ei ddilyn yn yr amser a neilltuwyd i gwmpasu'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer addysg grefyddol. Yn gynyddol, mae ysgolion yn cofrestru disgyblion ar gyfer y cwrs llawn yn yr amser hwn (sef y disgyblion hynny y cred yr ysgol fydd yn cyflawni gradd C neu uwch fel arfer). Fodd bynnag, mae mwyafrif y disgyblion sy'n dilyn y cwrs llawn wedi dewis gwneud hynny fel rhan o'u dewisiadau cyfnod allweddol 4. Yn 2012, fe wnaeth ychydig dros 10,000 o ddisgyblion gofrestru ar gyfer y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol, ac fe wnaeth bron i 20,000 o ddisgyblion gofrestru ar gyfer y cwrs byr. I gymharu, fe wnaeth rhyw 35,000 o ddisgyblion gofrestru ar gyfer TGAU iaith Saesneg.

Yn 2000, cyhoeddodd Estyn 'Anelu at Ragoriaeth mewn Addysg Grefyddol', a oedd yn canolbwyntio ar addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae cyrsiau TGAU mewn astudiaethau crefyddol wedi dod yn fwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mwy o ddisgyblion yn ennill cymhwyster mewn addysg grefyddol nag mewn unrhyw bwnc di-graidd arall yng Nghymru. Mae nifer y disgyblion sy'n astudio'r cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol wedi codi'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, gydag ychydig dros chwarter o'r disgyblion ym Mlwyddyn 11 wedi'u cofrestru yn 2012. Mae nifer y disgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol wedi codi'n raddol hefyd dros y pum mlynedd diwethaf, gydag ychydig dros hanner y disgyblion ym Mlwyddyn 11 wedi'u cofrestru yn 2012. Ar gyfer y ddau gwrs, cofrestrodd mwy o ferched na bechgyn, er bod y gwahaniaeth yn fwy gyda'r cwrs llawn.

2 Mae cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol wedi codi'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A* i C mewn astudiaethau crefyddol ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer pynciau eraill. Er bod cyrhaeddiad yng Nghymru yn weddol debyg i gyrhaeddiad ar gyfer y DU gyfan, mae cyfran uwch o ddisgyblion yn ennill gradd A* yng Nghymru.

3 Mae cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, er iddo godi ychydig yn 2012. Er y gostyngiad hwn, mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A* i C yng Nghymru wedi aros yn gyson well na chanran y DU gyfan, ac mae cyfran uwch o ddisgyblion yn ennill gradd A* yng Nghymru.

4 Mae canran gryn dipyn yn uwch o ferched yn ennill graddau A* i C na bechgyn ar y cwrs llawn a'r cyrsiau TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol. Mae'r bwlch yn rhwng y ganran hon ar gyfer merched a bechgyn ehangach yng Nghymru ar gyfer y ddau gwrs nad ydyw ar draws y DU gyfan.

5 Nid yw asesiadau athrawon o berfformiad disgyblion mewn addysg grefyddol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn cael eu cynnwys yn setiau data craidd Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â phynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi'n genedlaethol mewn unrhyw ffordd arall a fyddai'n galluogi dadansoddi safonau yng nghyfnod allweddol 3 neu gynnydd rhwng cyfnodau allweddol.

6 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, mae arsylwadau o wersi a chraffu ar waith disgyblion yn dangos bod safonau yn dda mewn mwyafrif o ysgolion yng nghyfnod allweddol 3. Nid yw safonau yn rhagorol yn unrhyw un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ond maent yn anfoddhaol mewn ychydig o ysgolion lle nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Disgyblion mwy galluog a dawnus yw'r grŵp sydd yn fwyaf tebygol o dangyflawni, a'r rheswm am hyn fel arfer yw bod y tasgau a osodir gan athrawon yn methu â'u herio i ddangos y lefel o fedr a dealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer lefel 7 neu uwch.

7 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da, ac mae cyfran ychydig yn is o ddisgyblion sy'n astudio'r cwrs byr yn gwneud cynnydd da hefyd. Lle nad yw disgyblion yn dilyn cwrs arholiad yng nghyfnod allweddol 4, anaml y mae safonau

mewn gwersi yn well na digonol. Yn y gwersi hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn camymddwyn. Mae hyn yn awgrymu nad ydynt yn gwerthfawrogi'r gwersi, a gallai hyn fod am nad ydynt yn arwain at gymhwyster.

8 Roedd bron pob un o'r disgyblion yn y gwersi a arsylwyd yn dangos parch at farnau a chredoau pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol, ac yn deall sut mae'n cyfrannu at eu datblygiad personol a chymdeithasol. Yn benodol, mae disgyblion yn mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol, fel 'a oes bywyd ar ôl marwolaeth?', 'beth yw drwg?' a 'beth yw gwirionedd?'. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu am ymatebion crefyddol gwahanol i gwestiynau fel y rhain, a pham mae pobl yn byw eu bywydau mewn ffyrdd gwahanol yn sgil eu credoau. Maent yn mwynhau ystyried eu barnau eu hunain, a'u trafod gyda'u cyfoedion. Maent yn barod i siarad am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chrefydd a moeseg, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi.

9 Roedd yn dda neu'n well mewn ychydig dros ddwy ran o dair o'r gwersi a arsylwyd ar gyfer yr arolwg hwn. Roedd yr addysgu yn rhagorol mewn bron i un o bob pump o'r gwersi, ac yn anfoddhaol mewn ychydig iawn o wersi. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yr addysgu mewn addysg grefyddol yn well na'r cyfartaledd ar gyfer addysgu ar draws yr holl bynciau mewn ysgolion uwchradd a arolygwyd er 2010. 2010.

10 Mewn llawer o ysgolion, yn y ddau gyfnod allweddol, mae athrawon addysg grefyddol:

- yn meddu ar wybodaeth bynciol dda;
- yn addysgu'n frwdfrydig;
- yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu i gefnogi'r dysgu, yn enwedig trwy drafod mewn parau a grwpiau;
- yn defnyddio arteffactau ac adnoddau clyweled yn greadigol;
- yn paratoi disgyblion yn drwyadl ar gyfer arholiadau TGAU;
- yn hyrwyddo medrau meddwl disgyblion yn effeithiol; ac
- yn hyrwyddo llythrennedd yn briodol, yn enwedig medrau llefaredd ac ysgrifennu.

11 Mae llawer o ysgolion uwchradd yn defnyddio athrawon anarbenigol i addysgu addysg grefyddol a'r cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol, er yn anaml y cânt eu defnyddio i addysgu'r cwrs TGAU llawn. Nid yw athrawon anarbenigol yn cael effaith negyddol ar safonau yn y mwyafrif o ysgolion.

12 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig, sy'n eu galluogi i ddeall eu cynnydd a sut i wella eu gwaith

13 Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth dda iawn gan athrawon o ofynion TGAU, ond ychydig sydd â dealltwriaeth gywir o lefelau perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a amlinellir yn y fframwaith enghreifftiol cenedlaethol.

14 Mae'r meysydd llafur a gytunir yn lleol ar hyd a lled Cymru yn debyg iawn, gan eu bod yn seiliedig ar y fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru. Mae bron pob un o'r ysgolion yn bodloni gofynion eu maes llafur cytûn lleol. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ysgolion yn bodloni'r

gofynion yng nghyfnod allweddol 4 naill ai am nad ydynt yn rhoi digon o amser i ymdrin â'r maes llafur, neu oherwydd weithiau bod gwersi'n cael eu defnyddio'n bennaf i helpu disgyblion ennill cymhwyster heb fod yn gymhwyster pwnc, fel cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru.

15 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae arweinwyr pwnc effeithiol yn gosod disgwyliadau uchel o fewn yr adran, yn monitro athrawon addysg grefyddol eraill yn fanwl, yn cynnig cymorth a her briodol, ac yn dirprwyo agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth ymhlith cydweithwyr er mwyn annog dull colegol. Dim ond mewn lleiafrif o adrannau addysg grefyddol y mae hunanarfarnu yn dda neu'n well. Mae prinder data cenedlaethol ar addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol yn ei gwneud hi'n anodd i ysgolion cymharu safonau gydag ysgolion eraill, ond dim ond lleiafrif o adrannau sy'n dadansoddi data arholiadau mewnol yn drylwyr er mwyn cynllunio ar gyfer gwella.

16 Mae'r diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau dysgu yn golygu nad yw arfer dda yn cael ei rhannu digon, ac nid eir i'r afael yn effeithiol â heriau, fel codi cyrhaeddiad bechgyn, cywirdeb asesu lefelau perfformiad yng nghyfnod allweddol 3, cynllunio ar gyfer datblygu medrau a gwella hunanarfarnu.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 ddatblygu strategaethau i godi cyrhaeddiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4;

A2 gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer cymhwyster, ac ystyried rhoi'r cyfle i bob disgybl ennill cymhwyster priodol;

A3 gwella cywirdeb asesiadau athrawon o lefelau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3;

A4 sicrhau bod tasgau yn ddigon heriol i alluogi disgyblion mwy galluog i gyrraedd lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3;

A5 sicrhau bod y cwricwlwm, y trefniadau staffio ac amserlennu yn galluogi pob disgybl i wneud cynnydd da trwy gyfnodau allweddol 3 a 4; a

A6 chryfhau hunanarfarnu a'r defnydd o ddata mewn adrannau addysg grefyddol er mwy nodi ble i wella a beth i'w wella.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data cyrhaeddiad ar gyfer addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol yn yr un ffordd ag ar gyfer pynciau di-graidd; a

A8 gweithio gydag awdurdodau lleol a CYSAGau i wella'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a chefnogi rhwydweithiau dysgu ar gyfer athrawon addysg grefyddol.

# Safonau mewn addysg grefyddol


## Safonau cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 3

17 Er ei bod yn ofynnol i ysgolion asesu'r lefel y bydd disgyblion yn ei chyflawni mewn addysg grefyddol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, nid yw'r data yn cael ei gynnwys yn setiau data craidd Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â phynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac nid yw'n cael ei gyhoeddi'n genedlaethol mewn unrhyw ffordd arall. Oherwydd y diffyg data cyhoeddedig ar gyfer pob ysgol, nid oes modd cymharu cyfraddau cyrhaeddiad mewn addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3 â chyfraddau mewn pynciau eraill. Nid oes modd cymharu cyrhaeddiad bechgyn a merched ychwaith.

## Safonau cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4

18 Dros y pum mlynedd diwethaf, bu gwelliant cyson mewn safonau yn y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol yng Nghymru. Yn 2012, roedd canran y disgyblion yn ennill graddau A* i C yng Nghymru yn debyg i ganran y DU gyfan, er bod canran y disgyblion a enillodd radd A* gryn dipyn yn uwch yng Nghymru.

**Canran y disgyblion a gofrestrodd ar gyfer y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol ac a enillodd radd A*-C yng Nghymru a'r DU rhwng 2007/08 a 2011/12**





Ffynhonnell: Y Cyd-Gyngor Cymwysterau 2008-2012

19 Fe wnaeth canran gryn dipyn yn uwch o ferched na bechgyn ennill graddau A* i C yn y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac fe wnaeth bron ddwywaith gymaint o ferched na bechgyn ennill gradd A* yn 2012.

Roedd y bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn yn llai yng Nghymru nag ar gyfer y DU gyfan hyd at 2012.

20 Mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A* i C yn y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol yng Nghymru ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar draws yr holl bynciau, yn enwedig ymhlith y pynciau mwyaf poblogaidd eraill.


**Canran y disgyblion yng Nghymru sy'n ennill graddau A* i C yn y pynciau mwyaf poblogaidd mewn TGAU yn 2011**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2012

21 Mae canran y disgyblion yng Nghymru sy'n ennill graddau A* i C yn y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, er bod safonau wedi codi ychydig yn 2012. Mae safonau wedi bod yn gyson well yng Nghymru nag yn y DU gyfan dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd canran y disgyblion a enillodd radd A* yn 2012 yn uwch yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol.

**Canran y disgyblion a gofrestrodd ar gyfer y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol ac a enillodd radd A*-C yng Nghymru a'r DU rhwng 2007/08 a 2011/12**




Ffynhonnell: Y Cydgyngor Cymwysterau Canlyniadau TGAU 2008-2012

22 Llwyddodd canran gryn dipyn yn uwch o ferched i ennill graddau A*i C na bechgyn yn y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2012, fe wnaeth rhyw ddwy ran o dair o ferched ennill graddau A* i C o gymharu â rhyw hanner y bechgyn, gan arwain at fwlch ehangach rhwng merched a bechgyn yng Nghymru nag yn y DU gyfan. Mae'r bwlch rhwng merched a bechgyn yn ehangach ar gyfer y cwrs byr nag ydyw ar gyfer y cwrs llawn. Mae'r bwlch yn fwy nodedig fyth ar gyfer y rheini sy'n ennill y radd uchaf yng Nghymru. Y 2012, llwyddodd bron dwywaith gymaint o ferched na bechgyn i ennill gradd A*.

23 Nid oes modd mynd ati'n ystyrlon i gymharu safonau ar y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol â safonau mewn pynciau cyrsiau byr eraill oherwydd y gwahaniaethau mawr yn y nifer sydd wedi cofrestru mewn meysydd pwnc.

24 Mae ychydig o ysgolion yn cofrestru'r disgyblion â'r gallu isaf ar gyfer cymhwyster islaw lefel TGAU, fel Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Astudiaethau Crefyddol. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r radd uchaf yn y Dystysgrif hon, sef Lefel Mynediad 3 ('Rhagoriaeth' yn flaenorol), wedi gostwng bob blwyddyn dros y pedair blynedd diwethaf. Gallai hyn adlewyrchu newid yn ystod gallu'r disgyblion sy'n cofrestru: mae nifer y rhai sy'n cofrestru wedi haneru bron yn ystod y cyfnod hwn, am fod mwy yn cael eu cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU byr.

## Safonau cyflawniad

25 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, mae arsylwadau o wersi a chraffu ar waith disgyblion yn dangos bod safonau yn dda mewn mwyafrif o ysgolion yng nghyfnod allweddol 3. Nid yw safonau yn rhagorol yn unrhyw un o'r gwersi a

arsylwyd. Mae safonau yn anfoddhaol mewn ychydig o ysgolion lle nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn gwersi unigol neu drwy'r cyfnod allweddol yn gyffredinol. Addysgu gwannach sydd i gyfrif am hyn fel arfer, a gwelir hwnnw'n bennaf mewn gwersi sy'n cael eu haddysgu gan athrawon anarbenigol. Disgyblion mwy galluog a dawnus yw'r grŵp sydd yn fwyaf tebygol o dangyflawni, a'r rheswm am hyn fel arfer yw bod y tasgau a osodir gan athrawon yn methu â'u herio na mynnu eu bod yn dangos ac yn datblygu'r fedr a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer lefel 7 neu uwch.

26 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU llawn yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da neu dda iawn. Mewn ysgolion lle caiff y cwrs llawn ei addysgu yn yr un cyfnod amser ag a roddir i'r cwrs byr fel arfer, mae disgyblion yn ymwybodol o bwysau amser ac yn gweithio'n arbennig o galed i gwblhau'r cwrs a chyflawni gradd dda. Mae mwyafrif y disgyblion hyn yn mynd ati i fanteisio ar gyfleoedd i barhau â'u dysgu yn ystod yr egwyl ginio neu mewn clybiau ar ôl ysgol i wneud yn iawn am y diffyg amser mewn gwersi.

27 Mae llawer o ddisgyblion sy'n astudio'r cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da.

28 Mewn gwersi addysg grefyddol lle nad yw disgyblion yn dilyn cwrs arholiad yng nghyfnod allweddol 4, mae safonau yn wael hyd yn oed pan fo'r disgyblion yn alluog. Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, prin fod safonau yn y gwersi hyn yn well na digonol gan nad yw'r disgyblion yn gweithio'n galed, ac anaml y disgwylir iddynt weithio'n galed gan athrawon.

29 Mae safonau yn uwch ar gyfer merched nag ar gyfer bechgyn mewn addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol. Nid oes unrhyw reswm amlwg am hyn ac eithrio ei fod yn adlewyrchu bwlch tebyg mewn safonau llythrennedd rhwng merched a bechgyn, a'r bwlch rhyngddynt mewn safonau ysgrifennu estynedig yn arbennig.

30 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae llawer o ddisgyblion yn gallu cofio ac esbonio'r credoau, yr athrawiaethau a'r arferion crefyddol y maent wedi'u dysgu. Ar lefel sy'n unol â' u hoed a'u gallu, gall y disgyblion hyn esbonio pa effaith a gaiff y credoau, yr athrawiaethau a'r arferion ar fywydau pobl, a gwnânt gymariaethau â'u bywydau eu hunain.

31 Gall llawer o ddisgyblion fynegi a chyfiawnhau safbwyntiau yn dda ar lafar ar faterion crefyddol a moesol, a gall mwyafrif y disgyblion wneud hynny yn ysgrifenedig hefyd. Defnyddiant ystod dda o derminoleg grefyddol yn briodol.

32 Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn dda mewn gwersi addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol. Gofynnant gwestiynau er mwyn rhoi gwedd gliriach ar ystyr a dealltwriaeth, a gallant gymhwyso eu dealltwriaeth yn dda i ddysgu newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwilio am wybodaeth yn briodol i osod a datrys problemau. Mae ychydig o ddisgyblion yn ddadansoddol ac yn graff iawn wrth fyfyrio ar brofiadau dysgu.

33 Mae datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion drwy addysg grefyddol yn dda yn y rhan fwyaf o ysgolion. Yn benodol, mae disgyblion yn datblygu gwerthfawrogiad

mwy o ddiwylliant byd-eang ac amrywiaeth grefyddol, a mwy o sensitifrwydd tuag atynt. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a maint grwpiau ffydd yn eu cymuned eu hunain ac yng Nghymru gyfan wedi'i datblygu gystal yn aml.

34 Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae mwyafrif y disgyblion yn ddysgwyr annibynnol cymwys mewn gwersi addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol. Maent hefyd yn gweithio ar y cyd ac yn gydwybodol i wneud gweithgareddau mewn parau a grwpiau. Fodd bynnag, lle nad yw disgyblion yn dilyn cwrs TGAU yn eu gwersi addysg grefyddol, mae safonau yn is yn gyffredinol. Mae cyrsiau TGAU mewn astudiaethau crefyddol wedi dod yn fwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf.

**Cyfranogiad ac ymgysylltiad mewn dysgu**

35 Mae mwy o ddisgyblion yn ennill cymhwyster mewn astudiaethau crefyddol nag mewn unrhyw bwnc di-graidd arall yng Nghymru. Yn 2011, llwyddodd dros 28,000 o ddisgyblion i ennill TGAU ar y cwrs llawn neu'r cwrs byr mewn astudiaethau crefyddol o ryw 36,000 o ddisgyblion a gofrestrodd ar gyfer arholiadau TGAU y flwyddyn honno.

36 Mae nifer y rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol wedi codi traean yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2012, cafodd dros chwarter o'r holl ddisgyblion Blwyddyn 11 yng Nghymru eu cofrestru ar gyfer y cwrs llawn, ac o'r pynciau di-graidd, dim ond hanes oedd â mwy o ddisgyblion wedi'u cofrestru nag astudiaethau crefyddol. Mewn cyferbyniad, yn 2008, roedd mwy o ddisgyblion wedi'u cofrestru ar gyfer celf, dylunio a thechnoleg, Ffrangeg, daearyddiaeth, hanes a TGCh nag astudiaethau crefyddol.

37 Yn ogystal â dangos poblogrwydd y pwnc, mae'r cynnydd hwn yn nifer y cofrestriadau hefyd yn ganlyniad cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n cofrestru cyfran sylweddol o ddisgyblion ar gyfer y cwrs llawn, hyd yn oed pan na fydd disgyblion wedi'i ddewis fel opsiwn. Mae'r disgyblion hyn fel arfer yn cwblhau'r cwrs yn yr amser a neilltuwyd ar gyfer addysg grefyddol statudol, sef llai na hanner yr amser a neilltuir i bwnc TGAU di-graidd, llawn fel arfer.

38 Ac eithrio nifer anarferol o uchel o gofrestriadau yn 2009, mae nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2012, roedd ychydig dros hanner o'r holl ddisgyblion Blwyddyn 11 yng Nghymru wedi'u cofrestru ar gyfer y cwrs byr.

39 Mae mwy o ferched na bechgyn yn sefyll TGAU mewn astudiaethau crefyddol, ac yn arbennig felly ar gyfer y cwrs llawn. Mae'r gwahaniaeth yng nghyfran y cofrestriadau merched a bechgyn ar gyfer y ddau gwrs yn fwy yng Nghymru na'r DU gyfan.

40 Mae'r Dystysgrif Lefel Mynediad yn cael ei defnyddio'n briodol mewn ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, ac yn galluogi'r ychydig iawn o ddisgyblion hynny sy'n annhebygol o ennill gradd G o leiaf mewn TGAU, i ennill cymhwyster. Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gydag ychydig dros 250 o

ddisgyblion yn unig wedi'u cofrestru yn 2012. Bob blwyddyn, mae rhyw ddwywaith gymaint o fechgyn â merched yn cael eu cofrestru.

41 Roedd bron pob un o'r disgyblion yn y gwersi a arsylwyd yn dangos parch at farnau a chredoau pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol, ac yn deall sut mae'n cyfrannu at eu datblygiad personol a chymdeithasol. Yn benodol, mae disgyblion yn mwynhau archwilio cwestiynau sylfaenol a dysgu ynghylch pam mae pobl yn byw eu bywydau mewn ffyrdd gwahanol. Maent yn mwynhau trafod eu barnau am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chrefydd a moeseg, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi.

42 Mewn gwersi yng nghyfnod allweddol 3, mae lefelau ymgysylltiad a safonau ymddygiad yn dda neu'n rhagorol fel arfer, yn enwedig mewn ysgolion lle mae enw da i'r pwnc, a lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ymlaen i gyflawni cymhwyster mewn astudiaethau crefyddol yng nghyfnod allweddol 4. Yr ysgolion hynny sydd â lefelau is o ran ymgysylltiad a safonau ymddygiad yng nghyfnod allweddol 3 yw'r ysgolion hynny fel arfer lle bydd ychydig iawn yn unig o ddisgyblion yn mynd ymlaen i gyflawni cymhwyster mewn astudiaethau crefyddol yng nghyfnod allweddol 4.

43 Mewn gwersi yng nghyfnod allweddol 4 lle mae disgyblion yn dilyn y cwrs llawn yng nghyfnod allweddol 4, mae ymddygiad y disgyblion yn dda neu'n rhagorol fel arfer. Mewn gwersi lle mae disgyblion yn astudio'r cwrs byr, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'r gwaith ac maent yn tarfu ychydig ar ddisgyblion eraill. Mewn gwersi lle nad yw disgyblion yn dilyn cwrs arholiad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn camymddwyn. Mae hyn yn awgrymu nad ydynt yn gwerthfawrogi'r gwersi, a gallai hyn fod am nad ydynt yn arwain at gymhwyster.

44 Er bod lleiafrif o ddisgyblion o'r farn fod ennill cymhwyster mewn astudiaethau crefyddol yn werthfawr o ran eu helpu tuag at yrfa benodol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi bod gwerth ehangach i'r pwnc o ran eu datblygiad personol a chymdeithasol a fydd o fudd iddynt, beth bynnag yw eu gyrfa.

45 Mae nifer y disgyblion sy'n mynd ymlaen i astudio astudiaethau crefyddol ar Safon UG a Safon Uwch wedi cynyddu gryn dipyn dros y pum mlynedd diwethaf, ac yn gyflymach na'r cynnydd yn y nifer o gofrestriadau ar gyfer y cwrs TGAU llawn. Yn 2008, roedd gan 12 o bynciau nifer sylweddol yn fwy o gofrestriadau Safon Uwch nag astudiaethau crefyddol yng Nghymru, ond yn 2012 dim ond chwe phwnc oedd â nifer sylweddol yn fwy o gofrestriadau. Mae astudiaethau crefyddol yn fwy poblogaidd o lawer yng Nghymru ar Safon Uwch nag yn y DU gyfan.

46 Mae teirgwaith yn fwy o ferched yn cofrestru ar gyfer astudiaethau crefyddol Safon Uwch na bechgyn yng Nghymru, o gymharu â dwywaith gymaint yn y DU gyfan. Nid yw'n glir pam mae merched yn fwy tebygol o lawer o symud ymlaen i wneud Safon Uwch mewn astudiaethau crefyddol na bechgyn. Mewn cymhariaeth, yn hanes, er enghraifft, mae canran y cofrestriadau gan fechgyn ar Safon Uwch yn debyg i'r nifer ar gyfer TGAU.


## Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau mewn addysg grefyddol

47 Mae llawer o agweddau ar waith ysgol sy'n dylanwadu ar y safonau y bydd disgyblion yn eu cyflawni, ac ansawdd yr addysgu yw'r agwedd bwysicaf. Mae'r adran hon yn arfarnu ansawdd yr addysgu, asesu, trefniadau'r cwricwlwm, adnoddau ac agweddau ar arweinyddiaeth ar safonau disgyblion mewn addysg grefyddol, yn ogystal â ffactorau y tu allan i'r ysgol.

### Addysgu ac asesu

48 Roedd addysgu ac asesu yn dda neu'n well mewn ychydig dros ddwy ran o dair o'r gwersi a arsylwyd ar gyfer yr arolwg hwn. Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng ansawdd yr addysgu a'r asesu yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Roedd addysgu yn rhagorol mewn bron i un o bob pump o'r gwersi, ac yn anfoddhaol mewn ychydig iawn o wersi. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yr addysgu mewn addysg grefyddol gryn dipyn yn well na'r cyfartaledd ar gyfer yr addysgu ar draws yr holl bynciau mewn ysgolion uwchradd a arolygwyd er 2010.

**Barnau ar gyfer addysgu ac asesu mewn addysg grefyddol (AG) o gymharu â barnau ar gyfer addysgu ac asesu ar draws yr holl bynciau mewn ysgolion uwchradd**




Ffynhonnell: Cronfa ddata deilliannau arolygu Estyn ac ymweliadau ysgol ar gyfer yr arolwg hwn

49 Yr addysgu mwyaf effeithiol yng nghyfnod allweddol 3 yw'r addysgu sy'n dilyn yr arweiniad a amlinellwyd yn nogfen Llywodraeth Cymru ar addysg grefyddol: 'Arweiniad ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3: Negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu'[3].

50 Mewn llawer o ysgolion, yn y ddau gyfnod allweddol, mae athrawon addysg grefyddol:

- yn meddu ar wybodaeth bynciol dda;
- yn addysgu'n frwdfrydig;
- yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu yn effeithiol i gefnogi'r dysgu, yn enwedig trwy drafod mewn parau a grwpiau;

[3] http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/110510rekeycy.pdf

- yn defnyddio arteffactau ac adnoddau clyweled yn greadigol;
- yn paratoi disgyblion yn dda iawn ar gyfer arholiadau TGAU;
- yn hyrwyddo medrau meddwl disgyblion yn dda; ac
- yn hyrwyddo llythrennedd yn dda, yn enwedig medrau llefaredd ac ysgrifennu.

**Defnyddio gwaith grŵp ar y cyd yn effeithiol i gryfhau dysgu**

Roedd un ysgol uwchradd yn defnyddio ‘grwpiau cynrychiolwyr’ fel offeryn effeithiol ar gyfer dysgu am athrawiaeth y Beibl ar y testun dioddefaint. Trefnwyd y disgyblion yn grwpiau ‘cartref’ bach o bump. Roedd un ‘cynrychiolydd’ o bob grŵp ‘cartref’ wedyn yn ymuno â’i gilydd i archwilio a gwneud nodiadau am ddarn o’r Beibl mewn ‘grŵp ymchwil’. Roedd darnau gwahanol gan bedwar ‘grŵp ymchwil’ tebyg. Roedd y ‘cynrychiolwyr’ yn mynd yn ôl i’w grŵp ‘cartref’ wedyn, lle byddai pob un ohonynt yn briffio’i gilydd ar y darn y buont yn ei archwilio a gwneud nodiadau am y darnau eraill hefyd. Roedd pob grŵp ‘cartref’ yn gweithio gyda’i gilydd wedyn i lunio casgliadau o’r hyn roeddent wedi’i ddysgu o bob un o’r darnau, a thrafod eu barnau. Roedd y disgyblion yn defnyddio’u dysgu fel sail ar gyfer ysgrifennu estynedig am yr hyn y mae’r Beibl yn ei addysgu am ddioddefaint. Symudai’r athro o amgylch y grwpiau amrywiol trwy gydol y wers i annog, herio a chynorthwyo’r disgyblion fel bo’r angen. Roedd y dasg yn sicrhau cynnwys pob disgybl yn llawn trwy roi cyfrifoldeb iddynt am eu dysgu. Arweiniodd y wers at safon uchel iawn o waith ysgrifenedig, a ddangosai ddealltwriaeth ragorol y disgyblion a’u gallu i fynegi a chyfiawnhau eu barnau ar y testun.

51 Mae mwyafrif o athrawon yn canolbwyntio’n briodol ar ddatblygu tair medr graidd disgyblion, sef:

- ymgysylltu â chwestiynau sylfaenol;
- archwilio credoau, athrawiaethau ac arferion crefyddol; a
- mynegi ymatebion personol.

52 Mewn mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn aml yn gosod y dysgu yng nghyd-destun digwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a straeon newyddion, sy’n gwella ymgysylltiad y disgyblion mewn dysgu, yn cynyddu eu dealltwriaeth ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu’u medrau.

53 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae’r athrawon yn gwella profiadau dysgu drwy wahodd ymwelwyr allanol i’r ystafell ddosbarth, fel arweinwyr crefyddol lleol neu weithwyr elusen, neu drwy fynd â’r disgyblion ar ymweliadau dysgu yn lleol neu ymhellach. Mae profiadau dysgu o’r fath yn cynorthwyo datblygu medrau meddwl y disgyblion. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i herio rhagfarnau, archwilio teimladau a chredoau personol, a datblygu empathi. Mae’r cyfleoedd hyn yn helpu disgyblion i wella’u hysgrifennu estynedig yn aml.

54 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio athrawon anarbenigol i raddau amrywiol i addysgu addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, er yn anaml iawn y cânt eu defnyddio i addysgu’r cwrs TGAU llawn. Nid yw athrawon anarbenigol yn cael effaith negyddol ar safonau yn y mwyafrif o ysgolion. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae defnyddio athrawon anarbenigol yn arwain at safonau sydd

yn ddigonol yn unig, neu'n anfoddhaol mewn ychydig o ysgolion. Y rheswm am hyn yw bod yr athrawon hyn naill ai'n llai effeithiol yn gyffredinol, dealltwriaeth wan sydd ganddynt o'r testun, neu nid ydynt yn cael eu cefnogi neu'u monitro'n ddigon da gan yr arweinydd pwnc.

**Cymorth i athrawon anarbenigol**

Mae gan un ysgol uwchradd ddau athro addysg grefyddol arbenigol a gefnogir gan dri athro anarbenigol. Mae'r athrawon anarbenigol yn addysgu addysg grefyddol i 10 dosbarth. Mae cymorth yr adran ar gyfer yr athrawon anarbenigol yn creu ethos rhagorol lle teimla'r holl athrawon eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar y disgyblion. Mae'r holl ddeunyddiau sydd eu hangen i addysgu'r pwnc yn cael eu cadw yn ardal yr adran ar fewnrwyd yr ysgol. Cyn belled ag y bo modd, caiff yr athrawon anarbenigol eu hamserlennu i addysgu yn yr ystafelloedd addysg grefyddol yn yr ysgol. Rhoddir cyfrifoldeb o fewn yr adran i'r holl athrawon anarbenigol i ddatblygu'u harbenigedd a sicrhau eu bod yn rhan weithredol o gynllun gwella'r adran. Er enghraifft, mae un o'r athrawon anarbenigol yn athro addysg gorfforol ag arbenigedd mewn trefnu teithiau allanol, a rhoddir y cyfrifoldeb iddo am gydlynu ymweliadau â mannau addoli.

55 Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn ymestyn nac yn herio disgyblion mwy galluog a dawnus yn ddigonol yng nghyfnod allweddol 3, yn enwedig mewn gwaith ysgrifenedig. Mae canfyddiad ymhlith athrawon arbenigol fod rhaid i ddisgyblion gynhyrchu ysgrifennu mwy cymhleth i gyflawni lefel 7 neu uwch yng nghyfnod allweddol 3, nag sy'n ofynnol i gyflawni gradd A* mewn TGAU, ac yn aml maent yn canolbwyntio ar baratoi disgyblion i ennill marciau llawn mewn cwestiynau arholiad TGAU, yn lle hynny, gan ddechrau'r gwaith hwn yn aml ym Mlwyddyn 9 yn hytrach na'u cynorthwyo i gyflawni lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3.

56 Mae defnydd y rhan fwyaf o athrawon o TGCh i gefnogi addysg grefyddol wedi'i gyfyngu i wneud cyflwyniadau neu ddangos gwefannau yn hytrach na galluogi disgyblion i wneud defnydd llawn o TGCh. Mae ychydig iawn o athrawon yn gwneud defnydd da o TGCh, er enghraifft, trwy gynorthwyo disgyblion i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth am fater ar-lein er mwyn ymestyn eu meddwl a llywio trafod yn y dosbarth ac ysgrifennu estynedig.

57 Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon yn defnyddio Twitter ac offer ar-lein eraill yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion yn eu gwaith ac i hyrwyddo'r pwnc, trwy dynnu sylw at straeon newyddion perthnasol ac adnoddau ar-lein, a thrwy anfon nodiadau atgoffa iddynt am waith cartref, asesiadau ac arholiadau. Mae hyn yn ehangu meddwl y disgyblion, yn eu helpu i gymhwyso'u dysgu mewn cyd-destunau newydd, ac yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer arholiadau allanol.

58 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, sy'n galluogi disgyblion i ddeall eu cynnydd a sut i wella eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 4 yn arbennig, mae hyn yn paratoi disgyblion yn dda iawn ar gyfer arholiadau allanol. Pan fo'r asesu yn dda neu'n well, mae athrawon yn defnyddio hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn rheolaidd.

59 Cyflwynodd ychydig dros ddwy o bob tair ysgol dystiolaeth o waith disgyblion ar gyfer lefel 4 i lefel 7 i CBAC er mwyn safonau addysg grefyddol yn ganolog yng nghyfnod allweddol 3 yn 2012. Mae adroddiad y Prif Safonwr ar gyfer 2012 yn nodi mai dim ond dealltwriaeth ychydig o ysgolion o lefelau a dderbyniwyd yn llawn. Felly mae'r gwaith o asesu lefelau yn debygol o fod yn anghywir mewn llawer o ysgolion, ac mae hyn yn effeithio ar ddefnyddioldeb y data, ar lefel ysgolion a lefel genedlaethol. Fodd bynnag, nid oes llawer o gydberthynas rhwng cywirdeb lefelu yng nghyfnod allweddol 3 a chywirdeb safonau disgwyliedig mewn TGAU yng nghyfnod allweddol 4. Yn gyffredinol, mae gan ysgolion ddealltwriaeth well o lawer o ofynion TGAU.

60 Ym mhob ysgol bron, rhoddir lefel darged i ddisgyblion ar gyfer eu gwaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 neu radd TGAU darged, ac maent yn ymwybodol o hynny. Fodd bynnag, nid yw'r targedau hyn yn cael eu llywio digon gan farn broffesiynol athro arbenigol, gan y cânt eu gosod y tu allan i'r adran yn aml, a'u cynhyrchu gan fodelau cyfrifiadur ar sail cyrhaeddiad blaenorol. Mae targedau yng nghyfnod allweddol 3 yn fwy tebygol o gynnwys diffyg her na bod yn rhy heriol, ond mae targedau cyfnod allweddol 4 yn gyffredinol yn cynnig lefel her briodol. Os nad yw disgyblion yn cofrestru ar gyfer cymhwyster ffurfiol yng nghyfnod allweddol 4, nid oes ganddynt darged ar gyfer eu gwaith mewn addysg grefyddol gan nad oes unrhyw fesur cenedlaethol arall ar gyfer eu cyflawniad.

61 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn darparu adroddiad priodol i rieni am gynnydd eu plentyn mewn addysg grefyddol.

## Cynllunio'r cwricwlwm

62 Mae bron pob un o'r ysgolion yn bodloni gofynion eu maes llafur a gytunwyd yn lleol ar gyfer addysg grefyddol. Nid yw ychydig iawn o ysgolion yn bodloni'r gofynion yng nghyfnod allweddol 4 am nad oes digon o amser gwersi i ymdrin â'r maes llafur neu oherwydd bod gwersi addysg grefyddol yn cael eu defnyddio i weithio tuag at gymwysterau eraill, fel Sgiliau Hanfodol Cymru neu Bagloriaeth Cymru, ac nid ydynt yn ymdrin â'r maes llafur yn ddigon da oherwydd hynny.

63 Ar gyfartaledd, caiff disgyblion un wers yr wythnos (rhyw awr o hyd) o addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3. Mewn ychydig o ysgolion, neilltuir llai o amser i addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3 na hanes neu ddaearyddiaeth, ond nid oedd sail resymegol gan yr un o'r ysgolion ar gyfer hyn, ac mae'n cael effaith negyddol ar agweddau disgyblion. Mewn ychydig iawn o ysgolion, darperir addysg grefyddol o fewn rhaglen ehangach o ddysgu yn seiliedig ar destunau sy'n ymdrin â nifer o feysydd cwricwlwm, fel y dyniaethau. Gall rhaglen o'r fath helpu athrawon i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau disgyblion, a chyhyd â bod digon o gyfraniad gan athrawon arbenigol wrth ddylunio a monitro'r rhaglen, nid yw'n cael effaith negyddol ar safonau mewn addysg grefyddol.

64 Mewn un ysgol, nid oes unrhyw wersi addysg grefyddol ym Mlwyddyn 9, ond caiff yr amserlen arferol ei hatal o bryd i'w gilydd, a darperir rhaglen o addysg grefyddol i'r disgyblion ar y diwrnodau hyn yn lle hynny. Caiff y trefniant hwn effaith negyddol ar gynnydd, safonau a'r nifer sy'n dewis astudiaethau crefyddol yng nghyfnod allweddol 4, am ei fod yn rhy fyr i alluogi datblygiad dros gyfnod.

65 Mae'r amser a neilltuir i'r cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol yn amrywio yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, o rhwng dwy awr i bum awr bob pythefnos. Mae ychydig llai na hanner yr ysgolion yn neilltuo pum awr bob pythefnos, sef yr amser cyfartalog a ddyrennir fel arfer i bwnc di-graidd ar gyfer dyfarniad TGAU sengl. Fodd bynnag, dim ond dwy awr bob pythefnos y mae hanner yr ysgolion yn ei neilltuo, ac mae athrawon yn yr ysgolion hyn yn ei chael hi'n anodd ymdrin â'r cwrs yn yr amser hwnnw. Yn aml, defnyddiant ystod gyfyngedig o ddulliau addysgu ac maent yn canolbwyntio'n rhy gul ar addysgu disgyblion sut i lwyddo yn yr arholiad yn hytrach na datblygu eu medrau'n ehangach.

66 Mewn rhai ysgolion sydd ond yn darparu dwy awr o amser cwricwlwm, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni graddau A* i C mewn astudiaethau crefyddol yn uwch nag mewn pynciau â phum awr o amser, fel hanes neu Saesneg. Y rheswm am hyn yw bod yr ysgolion hyn yn cymryd camau i wneud yn iawn am y diffyg amser, yn benodol drwy ddechrau'r cwrs TGAU ym Mlwyddyn 9 a darparu gwersi ychwanegol neu sesiynau galw i mewn amser cinio ac ar ôl ysgol. Er bod hyn yn helpu disgyblion i gyflawni safonau da, mae'n arwain at lwyth gwaith annheg i rai athrawon a disgyblion.

67 Mae'r amser a neilltuir i'r cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol yn amrywio yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw o un awr bob pythefnos i dros ddwy awr, er mai dwy awr bob pythefnos y mae mwyafrif helaeth yr ysgolion yn ei neilltuo. Nid yw un awr mewn pythefnos yn ddigon o amser i ymdrin yn llawn â'r cwrs ac i alluogi disgyblion i wneud y cynnydd y dylent fod yn ei wneud.

68 Mae rhyw hanner yr ysgolion yng Nghymru yn cofrestru'r rhan fwyaf o'u disgyblion ar gyfer y cymhwyster TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol hyd yn oed pan na fyddant wedi dewis y pwnc, am ei fod yn rhoi'r cyfle iddynt ennill cymhwyster arall mewn maes lle mae'n ofynnol iddynt yn gyfreithiol i barhau â'u dysgu yng nghyfnod allweddol 4. Yn gynyddol, mae ysgolion yn ymdrin â'r cwrs llawn yn ystod yr un dyraniad amser (h.y. y dyraniad amser addysg grefyddol) gyda disgyblion y teimlant y gallent ennill gradd C neu uwch.

69 Nid yw ychydig iawn o ysgolion yn cynnig y cyfle i ddisgyblion gymryd astudiaethau crefyddol ar lefel TGAU yng nghyfnod allweddol 4. Pan fydd hyn yn digwydd, y ffaith nad yw'r nifer o ddisgyblion sy'n dewis y pwnc yn ddigonol i lunio grŵp ymarferol yw'r rheswm am hynny fel arfer. Yn yr achosion hynny, nid yw dewisiadau ar gyfer cyd-gyflwyno'r pwnc ag ysgolion eraill wedi'u harchwilio yn aml.

**Ymagwedd gydweithredol at astudiaethau crefyddol yng nghyfnod allweddol 4**

Nid oedd un ysgol uwchradd wedi gallu darparu'r cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol yn y blynyddoedd diwethaf am nad oes digon o ddisgyblion yn dewis y pwnc i'w wneud yn ymarferol. Aeth yr ysgol i'r afael â hyn drwy weithio ar y cyd â phum ysgol uwchradd arall i ddarparu'r cwrs o un safle i'r holl ddisgyblion yn y consortiwm. Gall y disgyblion symud ymlaen i'r cyfnod ôl-16 gan fod y consortiwm yn cynnig astudiaethau crefyddol ar Safon Uwch hefyd. Mae'r trefniant hwn ar y cyd wedi bod o fudd i'r staff yn yr ysgolion yn y consortiwm hefyd, gan eu bod yn rhannu cyfrifoldeb am addysgu'r cyrsiau ar y cyd.

70 Mae trefniadau amrywiol gan ysgolion i ddarparu addysg grefyddol statudol i ddisgyblion nad ydynt yn dilyn yr un cwrs TGAU yng nghyfnod allweddol 4. Yr amser a neilltuir i addysg grefyddol yw naill ai un i ddwy wers bob pythefnos yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn. Nid yw un ysgol yr ymwelwyd â hi yn cynnig gwersi rheolaidd, ond yn hytrach mae'n atal yr amserlen arferol ar gyfer diwrnodau achlysurol drwy'r flwyddyn ac yn cynnig rhaglen o addysg grefyddol am y diwrnod yn lle hynny. Fodd bynnag, nid yw darparu addysg grefyddol trwy ddiwrnodau neilltuedig yn unig yn cefnogi datblygu medrau yn effeithiol.

71 Mae llawer o ysgolion yn cynllunio'u hymdriniaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill yn briodol, er bod ychydig o ysgolion yn cyfyngu'u hymdriniaeth gormod ac yn treulio gormod o amser yn astudio un grefydd.

72 Ym mhob ysgol bron, mae addysg grefyddol yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Nid yw hyn yn wir mewn ysgolion lle mae safonau yn anfoddhaol neu lle na roddir ddigon o amser i'r pwnc.

73 Nid yw cynlluniau gwaith yn ddigon penodol yn aml ynglŷn â datblygu medrau craidd disgyblion wrth fynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol, archwilio credoau, athrawiaethau ac arferion crefyddol, a mynegi ymatebon personol. O ganlyniad, mewn ychydig o wersi a arsylwyd, mae athrawon gwannach yn canolbwyntio gormod ar wybodaeth, fel cynnwys stori mewn testun cysegredig neu ffeithiau am ŵyl grefyddol, yn hytrach na defnyddio'r rhain fel cyd-destunau i ddatblygu medrau disgyblion.

74 Nid yw llawer o ysgolion yn cynllunio'n ddigon da i ymgorffori'r dimensiwn Cymreig mewn addysg grefyddol. Yn yr ychydig o ysgolion lle caiff y dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n dda, mae arweinwyr crefyddol lleol a gweithwyr elusen yn cyfrannu at wersi, a bydd disgyblion yn ymweld â mannau addoli, amgueddfeydd ac arddangosfeydd. Mae'r ysgolion hyn yn sicrhau bod y cyd-destun Cymreig wedi'i gynnwys yn ei gynlluniau, er enghraifft drwy ymdrin ag agweddau ar dreftadaeth Gristnogol Cymru a'i chyfansoddiad aml-ffydd presennol.

75 Mae bron pob un o'r ysgolion yn ymgorffori addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda o fewn addysg grefyddol. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu hagweddau a'u dealltwriaeth am faterion fel rhagfarn, tlodi a chaethwasiaeth trwy ddysgu am fywydau pobl a aeth i'r afael â'r materion hyn, gan gael eu hysbrydoli gan eu ffydd.

76 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae cynlluniau addysg grefyddol yn ymgorffori agweddau ar y gofynion ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru neu Fagloriaeth Cymru yn dda. Yn yr achosion hyn, fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion yn ymdrin â'r maes llafur addysg grefyddol yn ddigon da am eu bod yn rhoi gormod o bwyslais ar y gofynion ar gyfer y cymwysterau eraill hyn.

77 Mae disgyblion yn fwy tebygol o lawer i symud ymlaen i astudiaethau crefyddol ar lefel Uwch Gyfrannol a Safon Uwch os oes chweched dosbarth yn eu hysgol. O'r ysgolion yr ymwelodd Estyn â nhw ar gyfer yr arolwg hwn nad oes chweched dosbarth ynddynt, nid oes gan yr un ohonynt gysylltiadau cryf â darparwyr addysg bellach i gefnogi dilyniant y disgyblion mewn addysg grefyddol.

## Arweinyddiaeth, rheolaeth a gwella ansawdd

78 Yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd, caiff yr adran addysg grefyddol ei harwain yn dda. Mae arweinwyr pwnc effeithiol yn yr ysgolion hyn yn gosod disgwyliadau uchel o fewn yr adran, yn monitro athrawon addysg grefyddol eraill yn fanwl, yn darparu cymorth a her briodol, yn dirprwyo agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth i gydweithwyr, ac yn annog dull colegol.

79 Dim ond mewn lleiafrif o adrannau addysg grefyddol y mae hunanarfarnu yn dda neu'n well. Mae prinder data cenedlaethol ar addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, yn ei gwneud hi'n anodd i ysgolion gymharu safonau gydag ysgolion eraill. Dim ond lleiafrif o adrannau sy'n dadansoddi data arholiadau yn drylwyr er mwyn cynllunio ar gyfer gwella. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae hunanarfarnu yn rhagorol, mae athrawon yn cymharu canlyniadau pob disgybl sydd wedi'u cofrestru ar gyfer astudiaethau crefyddol gyda'u canlyniadau mewn pynciau eraill, yn ogystal ag ystyried eu cyrhaeddiad blaenorol a chyd-destun perthnasol, fel unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a pha un a ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Lle mae mwy nag un dosbarth TGAU, ac yn enwedig lle mae mwy nag un athro sy'n addysgu TGAU, mae'r arweinwyr pwnc gorau yn dadansoddi perfformiad pob dosbarth. Mae'r arweinwyr pwnc hyn yn defnyddio'u hunanarfarnu yn effeithiol iawn i lywio cynlluniau gwella.

80 Yn aml, nid yw'r amser gan yr arweinwyr pwnc i gyflawni'u rôl arweinyddiaeth yn effeithiol pan y nhw yw'r unig athro addysg grefyddol arbenigol yn yr ysgol, oherwydd eu hymrwymiadau addysgu. Bydd hyn yn digwydd fel arfer lle bydd ysgol yn gwneud defnydd sylweddol o athrawon anarbenigol, pan fydd ganddi gyfran uchel o ddisgyblion wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU, pan na fydd yn rhoi digon o amser i gyflwyno'r cwrs TGAU llawn, neu pan na fydd yn darparu cymorth ar gyfer dadansoddi data, gan fod bob un o'r rhain yn mynnu amser gan yr arweinydd pwnc i fynd i'r afael â nhw.

81 Mae bron pob un o'r ysgolion yn bodloni'r gofynion statudol i gynnwys crynodeb o'r addysg grefyddol a ddarperir yn yr ysgol yn eu prosbectws. Maent hefyd yn rhoi manylion ynghylch sut gall rhiant, neu ddisgybl chweched dosbarth, arfer yr hawl i ddewis peidio ag astudio addysg grefyddol ac unrhyw ddarpariaeth amgen a wneir ar gyfer disgyblion felly. Yn ychydig o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael eu tynnu allan o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni. Caiff bron pob un o'r disgyblion hyn eu tynnu allan oherwydd credoau crefyddol eu rhieni. Ym mhob achos lle caiff disgyblion eu tynnu allan, mae trefniadau amgen boddhaol gan yr ysgolion ar waith.

82 Mae diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau dysgu yn golygu nad yw arfer dda yn cael ei rhannu digon, ac nid eir i'r afael yn effeithiol â materion fel strategaethau i godi cyrhaeddiad bechgyn, cywirdeb asesu lefelau perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chynllunio ar gyfer datblygu medrau.

83 Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr pwnc ac athrawon arbenigol yn trefnu i gyfarfod yn anffurfiol gyda chydweithwyr o ysgolion eraill yn eu hardal i gyfnewid syniadau a gweithio gyda'i gilydd ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt. Weithiau, bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu ffurfioli fel rhan o ddiwrnodau HMS ar y cyd ar draws grŵp o ysgolion, a byddant yn fwy effeithiol pan fydd hyn yn digwydd, am eu bod yn canolbwyntio ar arfer dda ac wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chynllunio gwelliant o fewn ysgolion.

84 Nid yw'r rhan fwyaf o athrawon addysg grefyddol yn cael digon o gyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n benodol i'w pwnc, ac anaml y bydd athrawon arbenigol yn cael unrhyw ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol. Dim ond ychydig iawn o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw oedd wedi cael cymorth allanol ar gyfer addysg grefyddol gan eu hawdurdod lleol neu CYSAG yn y tair blynedd diwethaf. Mae ychydig iawn o athrawon yn mynychu cyrsiau addysg grefyddol yn cael eu darparu gan gwmnïau preifat, ac yn elwa arnynt.

## Atodiad 1:  Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o ymweliadau ag 20 o ysgolion uwchradd.  Mae'r sampl hon yn ystyried amrywiaeth o gyd-destunau'n ymwneud â lleoliad daearyddol, cefndir economaidd-gymdeithasol, maint ysgol a chyd-destun ieithyddol.  Yn ystod yr ymweliadau hyn, bu arolygwyr:

- yn arsylwi gwersi yng nghyfnodau allweddol 3 a 4;
- yn craffu ar samplau o waith disgyblion a dogfennau adrannau;
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion; ac
- yn cyfarfod ag athrawon ac uwch reolwyr.

Cafwyd tystiolaeth ychwanegol o:

- ddata arholiadau astudiaethau crefyddol TGAU;
- adroddiad y Prif Safonwr ar addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3; a
- thrafodaeth gyda grŵp cynrychioliadol o Gymdeithas CYSAGau Cymru (Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol).

Ymwelwyd â'r ysgolion canlynol ar gyfer yr arolwg hwn:

- Coleg Cymunedol Y Dderwen, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Brynteg, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Dinas Bran, Sir Ddinbych
- Ysgol Dyffryn Conwy, Conwy
- Ysgol Gyfun Caerllion, Casnewydd
- Ysgol Gyfun Cas-gwent, Sir Fynwy
- Ysgol Gyfun Coedcae, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Gyfun Glan Afan, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Abertawe
- Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd
- Ysgol Gyfun Sant Martin, Caerffili
- Ysgol Gyfun Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Gymunedol Llangatwg, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Tre-gŵyr, Abertawe
- Ysgol Uwchradd Casnewydd, Casnewydd
- Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Sir y Fflint
- Ysgol Uwchradd Rhymni, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Uwchradd y Trallwng, Powys

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Mark Campion AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Denise Wade AEM | Aelod tîm |
| Mary Parry AY | Aelod tîm |

This page is intentionally left blank

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

DRAFFT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## Ynys Môn
## Medi 2012 – Awst 2013

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Hamdden
Mr Richard Parry Jones

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2012-13
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

DRAFFT

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Cynghorydd
Cadeirydd CYSAG Môn, 2012-13

DRAFFT

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyrwyddir y ddogfen yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac ar ymweliadau i ysgolion. Datblygir deunyddiau i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn fel rhan o'r rhaglen hyfforddi.

Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- dderbyn adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ymgynghorol CYNNAL;

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Môn ar 14 Chwefror 2011, penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Mae Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynir canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion. Mae pob cwrs hyfforddi ym maes y Dyniaethau yn cynnwys elfen o hunan arfarnu ac yn codi ymwybyddiaeth athrawon o'r canllawiau a dosbarthwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Cyfeirir athrawon hefyd at y tri chwestiwn sy'n sail i drefn arolygu ESTYN:

1. Pa mor dda yw'r deilliannau?
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
3. Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?

Derbyniwyd 6 adroddiad hunan arfarniad gan benaethiaid ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn: Corn Hir, Llanfachraeth, Llanddona, Penysarn, Rhosybol, Y Tywyn. Ni dderbyniwyd adroddiadau gan 4 ysgol a arolygwyd yn ystod 2012: Brynsiencyn, Cemaes, Llanbedrgoch, Pentraeth, Y Fali.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o'r fframwaith arolygu newydd. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion* y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | | 5 | | | 1 | 3 | | | 1 | 3 | 1 | |
| **Cyfanswm** | | 5 | | | 1 | 3 | | | 1 | 3 | 1 | |

**Nid oedd adroddiad hunan arfarnu Tywyn yn cyflwyno barn am ansawdd y deilliannau na'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol, nac am ansawdd y ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd. Nid oedd adroddiad hunan arfarnu Llanddona yn dod i farn am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol.*

Roedd tua hanner yr adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarniadol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy. Fodd bynnag roedd llawer o'r sylwadau yn gyffredinol iawn wrth gyfeirio at safonau pwnc a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol. Prin oedd y cyfeiriadau at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

DRAFT

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd tua hanner yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddisgrifio a thrafod prif nodweddion defodau, gwyliau a dathliadau crefyddol; (Rhosybol, Penysarn)
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 i adnabod prif nodweddion a gwrthrychau addoli, y defnydd a wneir ohonynt a phwysigrwydd mannau pererindod o fewn amryw o grefyddau'r byd; (Rhosybol).

- gallu'r rhan fwyf o ddisgyblion i alw i gof rhai o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yr ymchwilir iddynt; (Corn Hir, Penysarn)
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau; (Corn Hir)
- gallu'r lleiafrif o ddisgyblion i wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr; (Corn Hir)
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddeall iaith symbolaidd ac i ddefnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas, (Corn Hir) a
- gallu llawer o ddisgyblion i drafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. (Corn Hir)

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd tua hanner yr ysgolion yn nodi'r angen i:
- ddatblygu gallu disgyblion y Cyfnod Sylfaen i holi cwestiynau a mynegi barn; (Corn Hir)
- sicrhau bod y tasgau addysg grefyddol yn herio'r disgyblion mwy galluog; (Corn Hir)
- ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen am rai o grefyddau'r byd, (Rhosybol) a
- datblygu ymhellach dealltwriaeth disgyblion CA2 o'r cyswllt rhwng credoau (Penysarn).

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd tua hanner yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:
- wybodaeth bynciol da'r athrawon a'r cynlluniau dysgu sy'n sicrhau dilyniant a datblygiad yn sgiliau addysg grefyddol y disgyblion; (Corn Hir)
- yr ystod eang o brofiadau sy'n galluogi disgyblion y Cyfnod Sylfaen i wneud cynnydd da mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes; (Corn Hir)
- dulliau asesu manwl sy'n cynorthwyo athrawon i ddarparu tasgau ar gyfer gwahanol alluoedd; (Corn Hir)
- yr ymweliadau a'r ymwelwyr sy'n ysgogi diddordeb y disgyblion mewn addysg grefyddol;(Corn Hir)
- amrediad da o adnoddau addas; (Corn Hir, Llanfachraeth)
- parodrwydd y staff i ymchwilio i ddulliau addysgu addas ar gyfer addysg grefyddol*, e.e. trwy fynychu cyrsiau hyfforddiant, cydweithio gydag athrawon eraill a darllen 'Newyddion Addysg Grefyddol';* (Rhosybol)

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae tua hanner yr ysgolion yn awyddus i:
- sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i adnabod meini prawf llwyddiant addas ac i fyfyrio ar y dysgu; (Corn Hir)
- parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr; (Corn Hir)
- datblygu gallu pob disgybl i ymateb a thrafod pynciau sy'n ymwneud ag addysg grefyddol, a (Llanddona)
- datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o gwestiynau sylfaenol (Penysarn).

DRAFFT

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
Roedd tua hanner yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- y cyfleoedd i archwilio agweddau moesol, ysbrydol a chrefyddol a meithrin ysbryd cymunedol; (Corn Hir)
- y defnydd o straeon Beiblaidd a straeon moesol fel sbardun i'r sesiynau addoli ar y cyd; (Rhosybol)

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- efelychu'r arferion rhagorol ymhob sesiwn addoli ar y cyd; (Corn Hir)
- sicrhau bod pob aeloda o staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag addoli ar y cyd; (Corn Hir)
- datblygu'n ymhellach ethos yr addoliad er mwyn iddo adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur; (Corn Hir)
- mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu ac arwain gwasanaethau addoli ar y cyd; (Rhosybol, Penysarn)
- defnyddio mwy o gyflwyniadau aml-gyfryngol yn y sesiynau addoli ar y cyd (Rhosybol).

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Cysylltu gydag Ysgol Corn Hir, Llangefni i ddiolch iddynt am yr adroddiad hunan arfarnu ac yn gofyn am ganiatad yr ysgol i rannu'r adroddiad fel enghraifft dda o hunan arfarniad ysgol;
- Llunio camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael âg ysgolion sydd heb gyflwyno adroddiad CYSAG i sylw CYSAG;
- Cytuno ar amserlen a threfn hunan arfarnu fel bod pob ysgol yn ymwybodol o'r disgwyliadau,
- Gwahodd un cydlynydd addysg grefyddol i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod dilynol o GYSAG;
- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc, ac

## 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion. Mae athrawon ymgynghorol CYNNAL wedi arwain nifer o gyfarfodydd hyfforddi ers 2007 er mwyn dadansoddi nodweddion y disgrifiadau lefel a chynllunio gweithgareddau dysgu priodol.

DRAFT

Gwahoddwyd adrannau uwchradd i gyflwyno portffolios o waith disgyblion i sylw safonwyr allanol CBAC yn 2010/11 a 2011/12 er mwyn safoni dealltwriaeth athrawon o'r disgrifiadau lefel. Cwblhawyd y broses hon yn Haf 2012 ac mae pob adran wedi derbyn adroddiad yn nodi os oedd y safonwyr yn cytuno gyda'u dehongliad neu beidio. Roedd yr adroddiadau yn cynnig arweiniad pellach i'r athrawon os oedd y safonwyr wedi methu a chytuno gyda dehongliad yr ysgol. Nid oes cyfleoedd pellach i ailgyflwyno'r portffolios.

- Mae 4 adran uwchradd wedi cyflwyno portffolio i sylw'r safonwyr allanol. Nid oedd Ysgol Uwchradd Caergybi wedi cyflwyno portffolio.

- Mae'r mwyafrif o adrannau wedi dangos dealltwriaeth dda o nodweddion Lefelau 4 a 5. Mae gan tua hanner o'r adrannau dealltwriaeth dda o nodweddion Lefelau 6 a 7.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Darparu cefnogaeth i'r adrannau oedd wedi methu cyflwyno portffolio neu wedi methu dangos dealltwriaeth llawn o'r nodweddion lefelau.

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Môn gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C)*.

| **Blwyddyn** | **Ysgolion** | **Disgyblion** | | **%L5+** | | **%L6+** | | **%L7+** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C | Môn | M+G+C | Môn | M+G+C | Môn | M+G+C | Môn | M+G+C |
| 2012 | 5(5)+13(14)+4(7) | 656 | 2,568 | 74.1 | | 29.7 | | 6.9 | |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 377 | 1,767 | 76.9% | | 26.0% | | 10.1% | |

- Cyflwynodd pob ysgol data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3. Nid oedd yr ysgol arbennig wedi cyflwyno data.
- Aseswyd 656 o ddisgyblion CA3 yn Haf 2012.
- Cyflawnodd 74.1% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 63.2% i 80%%;
- Cyflawnodd 29.7% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 22.1% i 45.5%.
- Cyflawnodd 6.9% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 1.5% i 15.5%
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion ymhob ysgol.
- Nid oedd un disgybl yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol.

DRAFFT

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**

Mae'r drefn o adrodd ar ganlyniadau arholiadau allanol wedi newid eto eleni. Mae'r amrediad o bynciau, byrddau arholi ac arholiadau modylol yn golygu ei fod yn anodd pennu sgorau cyfartalog yr holl bynciol. Amhriodol felly yw cymharu perfformiadau ysgolion yn erbyn ei gilydd . Fodd bynnag mae'r wybodaeth yma ar gael i'r ysgolion a disgwylir i benaethiaid adrannau addysg grefyddol i gyfeirio at berfformiad eu disgyblion mewn pynciau eraill wrth iddynt hunan arfarnu safonau'r pwnc.
Cyflwynir yma ganlyniadau ar gyfer y disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2012** | 46 | 110 | 156 | 43.5 | 65.5 | 59.0 | 76.1 | 94.5 | 89.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 50 | 49 |
| **2011** | 46 | 100 | 146 | 21.7 | 58.0 | 46.6 | 67.4 | 92.0 | 84.2 | 100 | 100 | 100 | 41 | 49 | 47 |
| **2010** | 22 | 54 | 76 | 27.3 | 48.1 | 42.1 | 40.9 | 90.7 | 76.3 | 100 | 100 | 100 | 36 | 48 | 44 |

Canlyniadau da iawn.

- 156 o ymgeiswyr o bedair ysgol yn Ynys Môn.
- Mae'r niferoedd yn amrywio o 20 disgybl mewn un ysgol i 55 mewn ysgol arall.
- Llwyddodd 59% o'r ymgeiswyr i ennill gradd A*/A (rhagoriaeth). Mae hyn yn uwch na chanran 2011 (46.6%).
- Llwyddodd 89.1% o'r ymgeiswyr i ennill cymhwyster Lefel 2. Mae hyn yn fwy na chanran 2011 (84.2%).
- Eleni eto, llwyddodd pob ymgeisydd i ennill cymhwyster Lefel 1 .
- Mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis AG yn ysgolion Ynys Môn (B 46 : G 110).
- Mae canlyniadau'r genethod yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched yn 50 o'i gymharu â sgôr cyfartalog y bechgyn, 44. Mae'r bwlch rhwng y bechgyn a merched wedi lleihau am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**

Cyflwynir yma ganlyniadau ar gyfer y disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion yma wedi dilyn cwrs byr TGAU ac wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau yn hytrach na pharhau a'u hastudiaethau er mwyn ennill cymhwyster cwrs cyfan.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2012** | 4 | 3 | 7 | | | | 50.0 | 66.7 | 57.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 21 | 20 |
| **2011** | 32 | 37 | 69 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 65.6 | 86.5 | 76.8 | 100 | 100 | 100 | 20 | 24 | 22 |
| **2010** | 70 | 136 | 206 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 61.4 | 91.2 | 81.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 24 | 22 |

DRAFT

Mae'n annhebygol y bydd cefnogaeth ymgynghorol addysg grefyddol ar gael i ysgolion ar ôl Mawrth 2013.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrwaon addysg grefyddol er mwyn ymchwilio i gwestiynau allweddol megis:
  - *Pam mae disgyblion yn dewis y pwnc? Pam nad ydynt yn dewis y pwnc? Pam mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis astudio'r pwnc?*
  - *Beth gall adrannau ddysgu oddi wrth adrannau eraill ynglyn â'r ffordd orau o gefnogi bechgyn wrth iddynt baratoi at arholiadau allanol. Pa strategaethau eraill dylid eu hystyried er mwyn cau y bwlch rhwng y merched a'r bechgyn?*
  - *Sut gall adrannau herio'r disgyblion i gyflawni gwaith o'r safon uchaf?*

DRAFT

### 2.3.3 Adroddiadau Arolygiadau ESTYN

Arolygwyd x ysgol ym Môn yn ystod y flwyddyn. Nid oedd cyfeiriad at addysg grefyddol yn yr adroddiadau. Nodwyd bod safon addoli ar y cyd yn rhagorol/da/digono/anfoddhaol mewn x ysgol.

### 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Adroddwyd ar ansawdd a datblygiad y ddarpariaeth addysgol yn ysgolion Ynys Môn yn ystod y flwyddyn academaidd trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg. Wrth ystyried blaenoriaethau Cynllun Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn 2011-14 mae amcan craidd 2 yn berthnasol i GYSAG Ynys Môn.

**Amcan Craidd 2 – Pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael mynediad i ystod gynhwysfawr o addysg, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu**

Pwrpas yr Amcan Craidd hwn yn sicrhau bod *'yr holl blant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial yn llawn ac yn datblygu sgiliau ar gyfer bywyd'.*

Mae Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn darparu cefnogaeth ariannol i GYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Mae CYNNAL yn penodi Ymgynghorydd Dyniaethau, gyda chyfrifoldeb am Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn darparu cefnogaeth gwricwlaidd i ysgolion cynradd ac uwchradd y ddwy sir. Cynigir hefyd secondiad hanner amser (0.5 yn 2011-12) i athro neu athrawes weithio fel athro neu athrawes ymgynghorol.

### 2.4.1 Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol

Ers 1996, mae ysgolion cynradd ac uwchradd y sir wedi derbyn cefnogaeth gan CYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Penodwyd Ymgynghorydd Dyniaethau ac athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol (rhan amser) i ymweld ag ysgolion fel rhan o'r rhaglen 'hawl a haeddiant' ac i ddarparu cyrsiau hyfforddi. Cafwyd cefnogaeth tair athrawes ymgynghorol yn ystod 2011-12:

- Mrs Leusa Jones (1 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon uwchradd
- Miss Debbie Humphreys: (1 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon cynradd.
- Mrs Nia Wyn Jones (0.5 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon cynradd.

Roedd y tîm ymgynghorol wedi cynorthwyo athrawon yn ystod y flwyddyn, i gynllunio'u rhaglenni astudio a chynlluniau asesu, paratoi gweithgareddau dosbarth a dethol adnoddau dosbarth addas. Roedd datblygu medrau meddwl, sgiliau hanfodol y dysgwyr ac arweinyddiaeth yn flaenoriaeth i athrawon y sir. Mae CYNNAL wedi cefnogi ysgolion sy'n paratoi at arolygiad trwy gynorthwyo athrawon ac adrannau i hunan arfarnu safonau mewn addysg grefyddol. Roedd cyfraniad yr athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol yn allweddol i rannu arferion da, datblygu gweithgareddau dosbarth symbylol a chynnal athrawon wrth iddynt baratoi at y dyfodol.

Mae'r Ymgynghorydd Dyniaethau a/neu'r athrawon ymgynghorol wedi gweithredu ar ran awdurdodau addysg Gwynedd a Môn ac wedi cyflwyno adroddiadau tymhorol i sylw CYSAG. Roedd y cyflwyniadau hyn yn fodd i rannu datblygiadau diweddaraf yn y maes, materion yn ymwneud â phedagogiaeth ac adnoddau, ac amlinelliad o'r gwaith a wneir gydag ysgolion yr AALl.

Ymatebodd y tîm ymgynghorol i anghenion ysgolion yn 2012-13 trwy:

- gefnogi ysgolion wrth iddynt ymateb i'r Maes Llafur Cytûn Lleol a'r drefn hunan arfarnu newydd. Darparwyd y gefnogaeth mewn cyrsiau hyfforddi, ymweliadau ysgol, cyswllt e-bost a safle Moodle CYNNAL;
- adnabod nodweddion hunan arfarniad da gan gyfeirio'n benodol at iaith arfarnon a thystiolaeth feintiol a mesuradwy;
- baratoi a darparu cyrsiau hyfforddi:
  - 'Cau'r Blwch: Dysgu ac Addysgu Effeithiol' i athrawon AG uwchradd. Defnyddiwyd samplau o waith disgyblion ac adroddiadau arsylwi gwersi enghreifftiol er mwyn dod i farn am safonau addysgu grefyddol a llythrennedd y disgyblion ac am safon y ddarpariaeth. Rhoddwyd sylw hefyd i ddefnyddio iaith a therminoleg addas wrth lunio adroddiadau hunan arfarnu.
  - 'Astudiaethau Crefyddol TGAU' i athrawon AG uwchradd dan arweiniad prif swyddog CBAC.
  - 'Data a Dirgelion: datblygu sgiliau darllen yn y Dyniaethau' i athrawon CA3 AG uwchradd. Roedd y sesiwn bore yn gyfle i ddefnyddio dirgelwch trawsgwricwlaidd 'Caethwasiaeth' er mwyn modelu gweithgaredd darllen, llafaredd a darllen. Ffocws sesiwn y prynhawn oedd datblygu sgiliau darllen data disgyblion wrth iddynt ddefnyddio siartiau, graffiau, tablau a diagramau fel tystiolaeth i ymchwilio i gwestiynau sylfaenol.
  - 'Beth yw ystyr y Nadolig?' i athrawon AG cynradd. Defnyddiwyd addoldy (Eglwys Biwmares), arteffactau, stori Feiblaidd a charolau i hybu sgiliau ymchwilio a sgiliau llythrennedd y disgyblion.

DRAFFT

- ➢ Cwrs 5 diwrnod Hyfforddi a Datblygu Athrawon yn y Dyniaethau. Roedd y thema ‘heddwch’ yn gyfrwng i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth yr athrawon o Fwdhaeth ac i fodelu gweithgareddau enghreifftiol i hybu ysgrifennu estynedig ymhlith disgyblion CA2. Bu cyfle hefyd i hunan arfarnu safonau addysg grefyddol. Gwelwyd effaith yr hyfforddiant yn aseiniadau’r athrawon: cynlluniau gwaith, ymchwil gweithredu, dangos dealltwriaeth o un lefel cyrhaeddiad.
- ➢ Deall Safonau yng Nghyfnod Allweddol 3. Cydweithiodd tri ymgynghorydd addysg grefyddol rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn trefnu cwrs hyfforddi i athrawon CA3. Arianwyd y cwrs gan Gymdeithas CYSAGau Cymru, awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac ysgolion uwchradd yr ardal. Atgyfnerthwyd yr arweiniad blaenorol a rhoddwyd i athrawon CA3, wrth iddynt gynllunio ac asesu gweithgareddau cyfoethog mewn addysg grefyddol, gan gyfeirio at y ddogfen, ‘Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a CA3’ (Llywodraeth Cymru). Mynychodd cynrychiolwyr o 5 adran addysg grefyddol uwchradd ym Môn yr hyfforddiant.

- arsylwi gwersi athrawon newydd gymhwyso yn y sector uwchradd;
- ddefnyddio safwe Moodle CYNNAL fel cyfrwng i rannu adnoddau a chanllawiau i athrawon wrth iddynt baratoi gweithgareddau addysg grefyddol, a
- chyfrannu erthyglau i ‘Newyddion Addysg Grefyddol’ er mwyn rhannu newyddion ac arferion da o Wynedd a Môn.

Pob tymor, bydd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn mynychu cyfarfodydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol yn ogystal â chyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru. Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL yw cadeirydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol eleni. Mae’r cyfarfodydd hyn yn sicrhau fforymau cenedlaethol i drafod materion sy’n ymwneud ag Addysg Grefyddol.

### 2.4.2 Cefnogaeth i ysgolion ar ôl Ebrill 2013

Daeth cangen ymgynghorol CYNNAL i ben ar 31 Mawrth 2013. Nid oes bellach ymgynghorydd dyniaethau nac athrawon ymgynghorol addysg grefyddol yn gwasanaethu ysgolion Gwynedd a Môn. Mae Miss Bethan James wedi ei phenodi fel arweinydd system i’r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion).

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu’r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

DRAFT

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad.

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Môn yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008);
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mae CYSAG Môn yn argymell bod ysgolion yn defnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion:
  - Safle Moodle CYNNAL: canllawiau, amserlen enghreifftiol, rhestr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal.
  - Gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol. Mae'r Awdurdod yn dosbarthu'r adnoddau misol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig ym Môn

DRAFT

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau ysgolion yn cydyffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Cynghori'r ysgolion i ddefnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion. Mae safle Moodle CYNNAL yn fan cychwyn da ar gyfer canllawiau, amserlen enghreifftiol, restr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion lleol.
- Dosbarthu gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig **yn Môn.**

DRAFFT

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Môn yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

*Mae'r Pwyllgor Addysg wedi cadw'i hawl i enwebu Cadeirydd ar gyfer CYSAG.*

DRAFFT

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2012-13

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Y Diacon Stephen Francis Roe |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Catherine Jones |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Mr Rheinallt Thomas |
| Yr Eglwys yng Nghymru | gwag |
| Undeb yr Annibynwyr | Yr Athro Euros Wyn Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | *gwag* |

**Cynrychiolwyr Undebau'r Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Martin Wise (Ysgol Caergybi) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones) |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | *gwag* |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | *gwag* |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | *Gwag* |
| Cyfetholwyd | Alison Jones (Ysgol Parch T Ellis)<br>Bethan Ll Jones (Ysgol y Graig) |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**

**Cynghorydd E. G. Davies (Cadeirydd)**
Cynghorydd Jim Evans
Cynghorydd W T Hughes
Cynghorydd Gwilym O Jones
Cynghorydd R Llewelyn Jones
Cynghorydd Alun Mummery
Cynghorydd G O Parry (M.B.E)
Cynghorydd Dylan Rees
Cynghorydd Peter Rogers.

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Mrs Helen Roberts | Prifysgol Bangor |
| Y Parchedig Elwyn Jones | Cyngor yr Ysgolion Sul |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mr Richard Parry Jones | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Hamdden |
| Mr Gareth Jones | Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Môn |
| Miss Bethan James | Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL |
| Mrs Leusa Jones | Athrawes ymgynghorol AG CYNNAL |
| Miss Debbie Humphreys | Athrawes ymgynghorol AG CYNNAL |
| Mrs Nia Wyn Jones | Athrawes ymgynghorol AG CYNNAL |
| Mrs Ann Holmes | Swyddog Pwyllgor |

DRAFT

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2011-12

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2012 – 2013, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar dri achlysur:

9 Hydref 2012
13 Mawrth 2013
28 Mehefin 2013

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

a) **Cyfarfod 9 Hydref 2012**

- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Ynys Môn 2011/2012
- Pa mor dda yw safonau addysg grefyddol?
- Canfyddiadau Adroddiad Prif Gymedrolwr Asesiadau Athrawon CA3 CBAC

* Hunan arfarniadau ysgolion: Corn Hir, Llanfachraeth, Llanddona, Rhosybol
* Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghyffordd Llandudno, Conwy ar 26 Mehefin 2012.
* Cefnogaeth gan y Gwasanaeth Ymgynghorol

b) **Cyfarfod 13 Mawrth 2013**

- Safonau Addysg Grefyddol: adroddiad gan y swyddog addysg
- Cefnogaeth gan y Gwasanaeth Ymgynghorol
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym Merthyr Tudful ym mis Tachwedd 2012.
- Adroddiad 'CYSAGau a'r Gymuned Leol' (Cymdeithas CYSAGau Cymru)
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn (terfynol) 2010/11

c) **Cyfarfod 28 Mehefin 2013**

- Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol
- Sut gall CYSAG gyflwyno ei ddyletswyddau yn y dyfodol?
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghasnewydd ar 22 Mawrth 2012.
- Adolygiad o'r Maes Llafur Cytuno
- Gohebiaeth

**3.3.1** Mae CYSAG Ynys Môn wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Mr Eurfryn Davies (cadeirydd CYSAG Ynys Môn)
- Rheinallt Thomas (aelod o bwyllgor gwaith CYSAGau Cymru)

DRAFFT

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – Ymgynghorydd Dyniaethau

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Mr Richard Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)
Mr Gareth Jones , Swyddog Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, Ymgynghorydd y Dyniaethau, sy'n gwasanaethu Gwynedd a Môn fel aelod o'r Cwmni Ymgynghorol, CYNNAL
Mrs Leusa Jones, Miss Debbie Humphreys, Mrs Nia Wyn Jones: athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol ran amser.
Mrs Ann Holmes, Swyddog Pwyllgor sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Ynys Môn

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. LL77 7EY

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Darperir copi papur i:**

- Aelodau CYSAG Môn

DRAFFT

## 3.4 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Ynys Môn** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Ynys Môn** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Ynys Môn** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Ynys Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt:** | |
| **Enw (Clerc CYSAG):** | **Mr Gareth Jones** |
| **Cyfeiriad:** | Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:**

**Addysg Grefyddol**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?**

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)**,** Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)**,** Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)**,** Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC.

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

**Materion i gael sylw**

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

**Materion i gael sylw**

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Addoli ar y Cyd**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: (Pennaeth)
Dyddiad:

DRAFT

## 3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B G Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B G Σ | Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| % L1<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B G Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr |

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B G Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| % L2<br>B G Σ | |
| % L1<br>B G Σ | |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B G Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |

DRAFT

This page is intentionally left blank

**Môn : Haf 2013**
**2.5 Safonau Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd**

**2.5.1 CA3 Asesiadau athrawon**
Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion. Nid yw'r disgyblion yn sefyll yr un profion neu'r un tasgau asesu ar draws y sir. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd hyfforddiant ers 2007 er mwyn cefnogi athrawon wrth iddynt ddadansoddi nodweddion y disgrifiadau lefel a chynllunio gweithgareddau dysgu addas. Gwahoddwyd ysgolion i gyflwyno portffolios o waith disgyblion i gymedrolwyr allanol CBAC yn 2010/11 a 2011/12 er mwyn cymedroli dealltwriaeth athrawon o'r disgrifiadau lefel. Daeth y broses hon i ben yn ystod Haf 2012 ac mae adrannau wedi derbyn adroddiadau yn nodi os oedd y cymedrolwyr yn cytuno gyda dealltwriaeth yr athrawon neu beidio. Roedd yr adrannau yn cynnig arweiniad pellach i'r athrawon os oedd y cymedrolwyr wedi methu a chytuno gyda dehongliad yr adrannau.

Cyflwynodd 4 (allan o 5) ysgol uwchradd ym Môn eu portffolios i sylw cymedrolwyr allanol CBAC. Roedd adroddiadau'r Prif Safonwr yn nodi bod gan y mwyafrif o adrannau ddealltwriaeth dda o nodweddion Lefelau 4 a 5. Roedd gan tua hanner yr adrannau dealltwriaeth dda o Lefelau 6 a 7.

Trefnwyd hyfforddiant i athrawon addysg grefyddol Gogledd Cymru, 'Deall Safonau yng Nghyfnod Allweddol 3' yng Nghyfforddd Llandudno yn Ionawr 2013. Cydweithiodd tri ymgynghorydd addysg grefyddol rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn trefnu cwrs hyfforddi i athrawon CA3. Arianwyd y cwrs gan Gymdeithas CYSAGau Cymru, awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac ysgolion uwchradd yr ardal. Atgyfnerthwyd yr arweiniad blaenorol a rhoddwyd i athrawon CA3, wrth iddynt gynllunio ac asesu gweithgareddau cyfoethog mewn addysg grefyddol, gan gyfeirio at y ddogfen, 'Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a CA3' (Llywodraeth Cymru). Mynychodd cynrychiolwyr o 5 adran addysg grefyddol uwchradd yng Ngwynedd yr hyfforddiant.

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Gwynedd gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Ers 1996, mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C)*.

| Blwyddyn | Ysgolion | Disgyblion | | %L5+ | | %L6+ | | %L7+ | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C* | Môn | M+G+C | Môn | M+G+C | Môn | M+G+C | Môn | M+G+C |
| 2013 | 3(5) | 428 | | 90.0% | | 45.3% | | 14.3% | |
| 2012 | 5(5)+13(14)+4(7) | 656 | 2,568 | 74.1% | | 29.7% | | 6.9% | |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 377 | 1,767 | 76.9% | | 26.0% | | 10.1% | |

- Derbyniwyd data perfformiad CA3 oddi wrth tair ysgol uwchradd: Ysgol Sir Thomas Jones, Ysgol Uwchradd Caergybi, Ysgol David Hughes.
- Nid yw CYNNAL wedi derbyn data perfformiad CA3 oddi wrth: Ysgol Bodedern , Ysgol Gyfun Llangefni ac ysgol arbennig Ysgol y Bont.
- Aseswyd 428 o ddisgyblion CA3 yn Haf 2012.
- Cyflawnodd 90% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 85% i 93%.
- Cyflawnodd 45.3% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 34% i 51%.
- Cyflawnodd 14.3% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 3% i 21%
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn dwy ysgol.
- Nid oedd un disgybl yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol.

**What are SACRE's recommendations to Anglesey Council?**

### 2.5.2 Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2011.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2013** | 5 | 32 | 108 | 140 | 28.1 | 46.3 | 42.1 | 81.3 | 82.4 | 82.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 46 | 46 |
| **2012** | 4 | 46 | 110 | 156 | 43.5 | 65.5 | 59.0 | 76.1 | 94.5 | 89.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 50 | 49 |
| **2011** | 5 | 46 | 100 | 146 | 21.7 | 58.0 | 46.6 | 67.4 | 92.0 | 84.2 | 100 | 100 | 100 | 41 | 49 | 47 |
| **2010** | | 22 | 54 | 76 | 27.3 | 48.1 | 42.1 | 40.9 | 90.7 | 76.3 | 100 | 100 | 100 | 36 | 48 | 44 |

Nid yw sgor cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i'r ymgynghorydd dyniaethau. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i data sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

**Canlynadau da iawn**

- 140 ymgeisydd o 5 ysgol ym Môn. Sgor cyfartalog y pwnc yw 46 sy'n ostyngiad o 3 phwynt ers llynedd.
- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 11 disgybl mewn un ysgol i 39 mewn ysgol arall.
- 42.1% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth). Mae'r ganran wedi gostwng yn sylweddol ers 2012 (-17%) ac yn dychwelyd i'r ganran a welwyd yn 2010.
- 82% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C) sy'n dirywiad (-7%) o gylfawniadau 2012. Mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 32 : G 108).
- Mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgor cyfartalog y merched yn 46 mewn cymhariaeth a sgor cyfartalog y bechgyn o 44. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU. Fodd bynnag mae canlyniadau L2 eleni yn awgyrmu bod y bwlch rhwng safonau'r bechgyn a'r merched wedi cau am y pedwerydd blwyddyn o'r bron. Mae'r blwch rhwng y ganran o fechgyn a genethod sy'n cyflawni Rhagoriaeth yn 18.2%, sy'n llai na'r bwlch yn 2012 (22%).

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnig cwrs byr Astudiaethau Crefyddol TGAU fel cymwyster ar gyfer y cwrs statudol Addysg Grefyddol CA4.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2013** | 2 | 11 | 32 | 43 | | | | 72.7 | 84.4 | 81.4 | 100 | 100 | 100 | 21 | 25 | 24 |
| **2012** | 3 | 4 | 3 | 7 | | | | 50.0 | 66.7 | 57.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 21 | 20 |
| **2011** | 2 | 32 | 37 | 69 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 65.6 | 86.5 | 76.8 | 100 | 100 | 100 | 20 | 24 | 22 |
| **2010** | | 70 | 136 | 206 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 61.4 | 91.2 | 81.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 24 | 22 |

Mae'n annhebygol y bydd cefnogaeth ymgynghorol addysg grefyddol ar gael i ysgolion ar ôl Mawrth 2013.

**Beth yw argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Gwahodd Adran Addysg Grefyddol
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrawon addysg grefyddol er mwyn ymateb i Adroddiad Arolwg ESTYN (2013) ac i ymchwilio i gwestiynau allweddol megis:
  - *Pam mae disgyblion yn dewis y pwnc? Pam nad ydynt yn dewis y pwnc? Pam mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis astudio'r pwnc?*
  - *Beth gall adrannau ddysgu oddi wrth adrannau eraill ynglyn â'r ffordd orau o gefnogi bechgyn wrth iddynt baratoi at arholiadau allanol. Pa strategaethau eraill dylid eu hystyried er mwyn cau y bwlch rhwng y merched a'r bechgyn?*
  - *Sut gall adrannau herio'r disgyblion i gyflawni gwaith o'r safon uchaf?*

**Adroddiad y Swyddog Addysg Tachwedd 2013 November Education Officer's Report.**

**2b. Materion yn codi / Matters arising.**

- Ysgolion Fali a Phentraeth wedi cael eu hatgoffa o'r angen I gyflwyno adroddiad hunan arfarnu / *Fali and pentraeth schools have been reminded of the need to provide a self evaluation report.*
- Gwefan Addysg Grefyddol / *Religious Education website*
- Cefnogaeth GwE *Support*
- Adroddiad Estyn *Report.* Fe aeth allan I'r ysgolion uwchradd ar 5 Medi. *It went out to schools on 5 September.* (Amgau / *Enclosed)*
- Adolygiad o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol / *Review of National Curriculum* Subjects (Amgau / *Enclosed)*

**4. Safonau Addysg Grefyddol / Standards in Religious Education**

**Adroddiadau Estyn Reports**

**Hydref 2013 Autumn.**

**Ysgol Cemaes.**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo a chefnogi lles ac iechyd y disgyblion yn briodol. Mae cyswllt agos rhwng y gymuned a'r ysgol sy'n cryfhau'r ymdeimlad o berthyn. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.
Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda ac mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus.

*The school is a caring community that promotes and supports pupils' wellbeing and health appropriately. There is a close link between the community and the school that strengthens the feeling of belonging. Nearly all pupils feel safe at school.*
*Provision for personal and social education is good and pupils' spiritual, moral, social and cultural development is promoted successfully.*

**Haf 2013 Summer**

**Ysgol Corn Hir**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn dda. Caiff holl bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol eu hadolygu'n gyson a gweithredir hwy'n effeithiol i sicrhau datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion.

*The school promotes pupils' health and wellbeing well. All the school's policies and procedures are reviewed regularly and are implemented effectively to ensure pupils' personal, spiritual, moral and cultural development.*

**Ysgol Moelfre**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, gofalgar a chynhwysol. Caiff ymwybyddiaeth foesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion ei datblygu'n llwyddiannus mewn sesiynau addoli ar y cyd ac yn ystod y gwersi.

*The school is a homely, caring and inclusive community. Pupils' moral, spiritual and cultural awareness is being developed successfully in collective worship sessions and during lessons*.

**Ysgol Llaingoch.**

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei gydlynu'n dda a'i ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau.

*Pupils' personal, spiritual, moral, social and cultural development is co-ordinated well and embedded firmly in the school's curriculum and day-to-day procedures. The school promotes high values, which help pupils to differentiate between that which is right and wrong and encourages them to take responsibility for their actions.*

Hunan arfraniad **Ysgol Uwchradd Bodedern** Self Evaluation ( Amgau / *Enclosed)*

7. Gohebiaeth / *Corresponsdence.*

Gohebiaeth gyda Julie Jones, Cymorth Cristnogol. Newid y geirfa I Addoli ar y Cyd gyda "Gwasanaeth y Mis"
*Correspondence with Julie Jones, Christian Aid. Change vocabulary to "Collective Worship" with Assembly of the month.*

Danfonwyd gohebiaeth , "Herio Materion Crefyddol" i'r ysgolion uwchradd ar 15 Hydref.
*Correspondence regarding "Challenging Religious Issues" sent to the secondary schools on 15 October. (*Amgau / *Enclosed)*

Adroddiadau CYSAGau Cymru / *WASACRE Reports . (*Amgau / *Enclosed)*

**YSGOL UWCHRADD BODEDERN**
**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

## Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

### Cyfnod Allweddol 3

Erbyn diwedd CA3 mae'r disgyblion wedi cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth a phrif grefyddau'r byd a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol a hynny drwy dri sgil craidd y pwnc. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ymdrin â chwestiynau sylfaenol megis 'A oes bywyd ar ôl marwolaeth?' a 'Beth yw ystyr bywyd?'. Mae pob disgybl yn CA3 yn cael cyfle i archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol e.e. defodau geni, dathliadau, straeon y creu a bywyd ar ôl marwolaeth. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu am ymatebion crefyddol gwahanol i gwestiynau sylfaenol fel y rhai uchod a pham mae pobl yn byw eu bywydau mewn gwahanol ffyrdd yn sgîl eu credoau. Rhoddir y cyfle hefyd i bob disgybl yn ddiwahân i fynegi ymateb personol ar faterion megis "A ydych yn credu mewn gwyrthiau?' ac 'Mae bywyd yn rhy fyr i ddal dig. Dylid anghofio a maddau bob tro'. Maen nhw'n mwynhau ystyried eu barnau eu hunain a thrafod gwahanol safbwyntiau gyda'u cyfoedion yn y gwersi.

**Canlyniadau Asesiadau Athrawon CA3**

Llwyddodd 79% o'r disgyblion i gyrraedd Lefel 5+ o gymharu â 90% y Sir sydd braidd yn siomedig ond yn well nag y llynedd a oedd yn 71.7% Lefel 5+.

31% wedi cyrraedd Lefel 6+ o gymharu â 22% y llynedd.

14% wedi cyrraedd Lefel 7+ o gymharu ag 11% y llynedd.

69% o ddisgyblion PYD wedi cyrraedd Lefel 5+ felly ceir 10% o wahaniaeth rhwng cyflawniad disgyblion PYD a'u cyd-ddisgyblion yn y pwnc.

### Cyfnod Allweddol 4

Dilynir y cwrs Manyleb B (CBAC) ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth o Gristnogaeth ac Iddewiaeth a defnyddio'r rhain i ymateb i gwestiynau moesegol a chrefyddol.

Darperir gwersi Addysg Grefyddol statudol i bob disgybl yn CA4. Bydd rhain hefyd yn atgyfnerthu cynnwys y Fagloriaeth Gymreig ym mlwyddyn 10 a thrafodir pynciau megis erthyliad, ewthanasia, urddas dynol, rhyfel a heddwch, priodas ac ysgariad. Yn ogystal â hyn darperir gwersi Addysg Grefyddol ym Mlwyddyn 11 ble mae'r pwyslais ar gynnal trafodaeth ac ymdrin â phynciau megis perthnasoedd a chyfrifoldeb, hunaniaeth ddynol, sut mae crefydd a diwylliant yn ysbrydoli ymrwymiad, a lle, pwrpas a gwerth bywyd.

**Canlyniadau TGAU**

Cafwyd canlyniadau da eleni gyda 72.7% wedi cael graddau A* -C. Roedd hyn ychydig yn is na

chanlyniadau y llynedd a oedd yn 80% ond yn dal i fod yn well na chanlyniadau 2011 a oedd yn 56.3% A*-C..

Llwyddodd 100% o'r disgyblion i gael gradd A*-G.

Cafodd 100% o'r bechgyn raddau A*-C sy'n sylweddol uwch nag y llynedd (62.5%).

## Cyfnod Allweddol 5

Dilynir y cwrs Safon Uwch CBAC ble y caiff y myfyrwyr gyfle i astudio dwy uned ym mlwyddyn 12 (Cyflwyniad i Fwdhaeth a Chyflwyniad i Iddewiaeth) a dwy uned ym mlwyddyn 13 (Astudio Bwdhaeth ac Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol).

Darperir Addysg Grefyddol statudol drwy nifer o ffyrdd yng nghyfnod allweddol 5 e.e. drwy rhan o'r Fagloriaeth Gymreig, gwersi ABaCh a Cymru Ewrop a'r Byd. Trafodir pynciau megis natur yn erbyn magwraeth, ystyr a phwrpas bywyd, perthynas gadarnhaol a pherthnasoedd yn chwalu, Masnach Deg, gwahanol ffyrdd y gall gwledydd, un ai gyda'i gilydd neu'n unigol, weithio tuag at wella cydweithrediad a dealltwriaeth ryngwladol.

**Canlyniadau Safon Uwch Gyfrannol ac Uwch**

**Safon Uwch**

Canlyniadau da iawn eleni – 83.3% o'r disgyblion yn llwyddo i gael graddau A*-C.

Cafodd 33.3% o'r disgyblion raddau A*-A.

Cafodd 100% o'r disgyblion raddau A*-E.

**Safon Uwch-Gyfrannol**

Canlyniadau da iawn gyda 75% o'r disgyblion yn cael graddau A*-C a 100% yn ennill graddau A*-E.

Cafodd 37.5% o ddisgyblion raddau A*-A.

## Materion i gael sylw

Cau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion PYD a'u cyd-ddisgyblion.
Atgoffa disgyblion yn gyson o'u targed yn y pwnc a'r hyn sydd angen ei wneud i gyrraedd eu potensial.
Sicrhau defnydd cyson o dagio ar system yr ysgol.
Parhau i gynnal profion rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dysgu eu gwaith a chysylltu efo'r cartref os yw'r disgyblion yn tangyflawni'n sylweddol mewn profion.
Disgyblion yn parhau i ymarfer ateb cyn-papurau arholiad yn gyson a sicrhau digon o gyfleoedd i ymarfer ateb cwestiynau arholiad.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

**YSGOL UWCHRADD BODEDERN**
**Addysg Grefyddol**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

## Cyfnod Allweddol 3

Neilltuir dwy wers yr wythnos ar gyfer Addysg Grefyddol ym mlwyddyn 7 ac un wers yr wythnos ar gyfer y pwnc ym mlwyddyn 8 a 9.

Mae'r athrawon sy'n addysgu Addysg Grefyddol naill ai fel eu prif bwnc neu fel pwnc ychwanegol yn gyfarwydd â'r Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol. Maent yn adnabod y tri sgil craidd sef ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a mynegi ymatebion crefyddol.

Mae cynlluniau gwaith Addysg Grefyddol wedi'u seilio ar ofynion y Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ac yn ymgorffori y tri sgil craidd yn y meysydd astudio.

Mae'r gweithgareddau wedi cael eu cynllunio'n ofalus gan gynnig y cyfleoedd gorau posibl i ddatblygu ac adeiladu ar y sgiliau a gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgu blaenorol. Gwneir ymdrech i gynllunio amrywiaeth o weithgareddau llafar – unigol ac ar gyfer grwp ac ysgrifenedig. Datblygwyd nifer o dasgau i gyd-fynd a'r Fframwaith Llythrennedd eleni gan bod y Pennaeth Pwnc yn aelod o Gymuned Ddysgu proffesiynol llythrennedd yr Ysgol.

Ceir nifer fawr o adnoddau o fewn yr adran e.e. llyfrau, dvds, rhaglenni cyfrifiadurol, nifer fawr o arteffactau. Benthycir yr arteffactau yn aml i ysgolion cynradd lleol.

Bydd holl ddisgyblion Blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Diolchgarwch yn y capel lleol yn flynyddol a bydd y casgliad yn mynd at elusen o ddewis y Cyngor Ysgol.

Bydd holl ddisgyblion Blwyddyn 8 yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd Gem Masnach Deg gyda chynrychiolydd o Cymorth Cristnogol fel rhan o'r Wythnos Sgiliau flynyddol.

Paratoir disgyblion Blwyddyn 9 ar gyfer dewis y pwnc ar gyfer TGAU drwy gynnal Ffair Yrfaoedd a chyfrannu at brospectws Ysgol. Mae nifer fawr o ddisgyblion yn ymwybodol o werth cymhwyster mewn astudiaethau crefyddol ar gyfer gyrfa benodol ond hefyd yn gwerthfawrogi'r pwnc ar gyfer hybu eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ymweld â chapel ac  eglwys yn y pentref a gwahoddir siaradwyr gwâdd i'r ysgol yn achlysurol e.e. Wythnos Sgiliau.  Yn ogystal bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hybu'r pwnc yn y Noson Agored flynyddol.

## Cyfnod Allweddol 4

Neilltuir 3 gwers yr wythnos ar gyfer gwersi TGAU Astudiaethau Crefyddol.
Addysgir y gwersi TGAU gan y Pennaeth Pwnc  sydd yn meddu ar radd mewn Astudiaethau Crefyddol.
Dilynir y cwrs Manyleb B  (CBAC) ar gyfer TGAU sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau  a'u gwybodaeth o Gristnogaeth ac Iddewiaeth a defnyddio'r rhain i ymateb i gwestiynau moesegol a chrefyddol.

Sicrheir y bydd y disgyblion yn cael digonedd o gyfle i ymarfer cyn-bapurau arholiad yn y gwersi ac yn cael profion rheolaidd er mwyn paratoi'r disgyblion yn drwyadl ar gyfer yr arholiad.

Rhoddir y cyfle i'r disgyblion sy'n dilyn y pwnc ar gyfer TGAU i ymweld â synagog yn Lerpwl a chapel ac eglwys Bodedern.

Addysgir yr Addysg Grefyddol statudol gan aelodau o'r Gyfadran Ddyniaethau a chynllunir y gwersi fel bod digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau mynegi barn a gwneud penderfyniadau – yn unigol, mewn parau a grwpiau.

## Cyfnod Allweddol 5

Neilltuir 4 gwers yr wythnos ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol ac Uwch Astudiaethau Crefyddol. Addysgir y gwersi Safon Uwch Gyfrannol ac Uwch gan y Pennaeth Pwnc sy'n meddu ar radd mewn Astudiaethau Crefyddol.

Dilynir y cwrs Safon Uwch Gyfannol ac Uwch CBAC ble y caiff y myfyrwyr gyfle i astudio dwy uned ym mlwyddyn 12 (Cyflwyniad i Fwdhaeth a Chyflwyniad i Iddewiaeth) a dwy uned ym mlwyddyn 13 (Astudio Bwdhaeth ac Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol).

Sicrheir y bydd y disgyblion yn cael digonedd o gyfle i ymarfer cyn-bapurau arholiad yn y gwersi ac yn cael profion rheolaidd er mwyn paratoi'r disgyblion yn drwyadl ar gyfer yr arholiad.

Bydd y myfyrwyr sy'n dilyn y pwnc i safon UG ac Uwch yn cael y cyfle i fynd ar ymweliad â'r Ganolfan Fwdhaidd ym Manceinion yn flynyddol a threfnir ymweliad ag Auschwitz neu Krakow yng Ngwlad Pŵyl bob dwy flynedd ar y cyd efo'r Adran Hanes.

Yn yr Addysg Grefyddol statudol trafodir pynciau megis natur yn erbyn magwraeth, ystyr a phwrpas bywyd, perthynas a pherthnasoedd yn chwalu, Masnach Deg, gwahanol ffyrdd y gall gwledydd, un ai gyda'i gilydd neu'n unigol, weithio tuag at wella cydweithrediad a dealltwriaeth ryngwladol. Cynllunir gweithgareddau sy'n rhoi'r cyfle i'r myfyrwyr baratoi eu cyflwyniadau eu hunain, ysgrifennu traethodau estynedig a chymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth. Gwneir pob ymdrech i wahodd siaradwyr gwadd i mewn yn ogystal

Bydd myfyrwyr Blwyddyn 12 ac 13 yn cyfrannu'n achlysurol at addoliad ar y cyd ac yn helpu gyda'r gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol. Bydd pob disgybl CA5 yn mynychu y gwasanaethau addoli ar y cyd.

## Materion i gael sylw

Denu mwy o ddigyblion i ddewis y pwnc i safon TGAU a Safon UG ac Uwch e.e. drwy barhau I gynnig cyfleoedd allgyrsiol megis teithiau tramor.

Parhau i ddatblygu tasgau heriol, diddorol ac ymestynol ar gyfer y disgyblion Mwy Abl a Thalentog.

Treialu rhagor o strategaethau Datblygu Meddwl ac adolygu er mwyn codi safonau a chyflawniad y disgyblion.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **YSGOL UWCHRADD BODEDERN**<br>**Addoli ar y Cyd** |
|---|
| **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio a'r gofynion statudol? Ydy √** |
| Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn bennaf ac yn adlewyrchu arferion a thraddodiadau crefyddol ein hardal a'n gwlad yn ddyddiol yn yr Ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel ysgol gyfan (Cynulliad boreol) bedwar bore'r wythnos ac ar lefel dosbarth (gwasanaeth ar yr aelwyd) bob bore Mercher. Y mae'r gwasnaethau yn cyfrannu at ddealltwriaeth y disgyblion o faterion moesol ac ysbrydol ac yn eu helpu i barchu amrywiaeth, gwirionedd, cyfiawnder, hawliau a chyfrifoldeb yn ogystal a meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos o barch sy'n greiddiol i Ysgol Uwchradd Bodedern.<br><br>Bydd pob athro, uwch gymhorthydd yn ogystal â myfyrwyr y Brifysgol yn cael gwahoddiad i gymryd cyfrifoldeb am wasanaeth yn eu tro felly hefyd pob Llys (dosbarth). Nodir hyn ar galendr yr ysgol. Ceir canllawiau clir i'r staff ynghyd ag awgrymiadau am themau yn Llawlyfr y Gweithlu. Ceir stoc o wasanaethau parod ar system gyfrifiadurol yr ysgol ond anogir pob un i ddewis eu testun eu hunain er mwyn sicrhau amrywiaeth.<br><br>Bydd y disgyblion yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr addoliad :<br>• Myfyrio drwy wrando ar gyflwyniad / darlleniad gan aelod o staff neu siaradwr gwadd<br>• Myfyrio drwy wylio cyflwyniad electronig ar y bwrdd gwyn e.e. sioe sleidiau, darn o ffilm<br>• Gweddio<br>• darllen<br><br>Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a cymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad. Yn yr un modd, gofynnir i unrhyw aelod o'r gweithlu sydd â gwrthwynebiad cydwybodol i fynychu gwasanaeth crefyddol i hysbysu'r Pennaeth. Prin iawn yw'r eithrio hyn yn Ysgol Uwchradd Bodedern.<br><br>Ar y cyfan mae addoli ar y cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar AbaCh, Datblygiad Cynaliadwy, Dinasyddiaeth Fyd-eang a gwaith elusennol fel rhan o'r addoliad ynghyd a dathlu llwyddiannau unigolion, grwpiau o ddisgyblion ac ar lefel ysgol gyfan.<br><br>Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn dda gyda rhai agweddau rhagorol. |

<table>
<tr><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="8">Materion i gael sylw<br>• efelychu’r arferion rhagorol ymhob gwasanaeth</td></tr>
<tr><td>Rhagorol</td><td></td><td>Da</td><td>√</td><td>Digonol</td><td></td><td>Anfoddhaol</td><td></td></tr>
</table>

Catrin Jones Hughes

Dirprwy Bennaeth

YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Medi 2013

## Sut gall aelodau CYSAG gefnogi'r drefn o fonitro safonau addoli ar y cyd ac Addysg Grefyddol?

Daeth cangen ymgynghorol CYNNAL i ben ar 31ain o Fawrth. Er bod Adran Addysg Awdurdod Môn yn awyddus i sicrhau cefnogaeth bynciol neu broffesiynol i GYSAG Môn ac yn ystyried comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn, nid oes cytundeb ffurfiol yn ei le. Mynychodd cyn-ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL, cyfarfod CYSAG Môn ar 28 Mehefin 2013 er mwyn cyflwyno eitem ar ddadansoddi hunan arfarniadau ysgolion o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.

Gan fod rhai aelodau newydd yn bresennol, manteisiodd ar y cyfle i ganfod gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau CYSAG Môn o'r maes trwy ddosbarthu holiadur. Roedd x aelod yn bresennol yn y cyfarfod ac ymatebodd 10 aelod i'r holiadur.

| | ✘ | ✔ |
|---|---|---|
| **Rwy'n deall gofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion**<br>*I understand the statutory requirements for collective worship in schools.* | | 100% |
| **Rwy'n deall gofynion statudol y Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.**<br>*I understand the statutory requirements of the Agreed Syllabus for Religious Education* | 30% | 70% |

**Yn dilyn sesiynau hyfforddi penodol, a fyddech yn hapus i:**
Follwing specific training sessions, would you be happy to:

| | **Byddwn**<br>*Yes* | **Na fyddwn**<br>*No* |
|---|---|---|
| Ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor?<br>*Attend a collective worship session/sessions in a sample of schools each term?* | 80% | 20% |
| Ddarllen a pharatoi dadansoddiad sampl o arfarniadau ysgol<br>*Read and prepare an analysis of a sample of school self evaluation reports* | 70% | 30% |
| Ymweld ag ysgol er mwyn trafod hunan arfarniad ar yr ysgol ar addysg grefyddol gyda'r cydlynydd addysg grefyddol neu bennaeth adran.<br>*Visit a school in order to discuss the school's self evaluation of religious education with the RE co-ordinator or head of department.* | 60% | 40% |

Mae holl aelodau CYSAG Môn yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae llawer o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor. Derbyniwyd enwau 4 aelod. Roedd un aelod yn barod i arwain sesiynau addoli ar y cyd yn achlysurol.

Mae'r llawer o aelodau CYSAG Môn yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol y Maes Llafur Cytûn ac yn barod i ddarllen a pharatoi dadansoddiad o sampl o hunan arfarniadau ysgol. Derbyniwyd enwau pedwar ohonynt. Mwyafrif sy'n barod i ymweld ag ysgol er mwyn trafod hunan arfarniad yr ysgol gyda'r cydlynydd addysg grefyddol neu bennaeth adran a derbyniwyd enwau pedwar ohonynt.

**Argymhellion posib ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod nesaf (Hydref 2013)**

Cynnal hyfforddiant ar y gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd
Cynnal hyfforddiant ar y gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol.
Cynnal un cyfarfod bob blwyddyn mewn ysgol uwchradd er mwyn mynychu addoli ar y cyd a threulio amser gydag athrawon addysg grefyddol a disgyblion CA3, CA4 a CA5.

Cynnal un cyfarfod bob blwyddyn mewn ysgol gynradd er mwyn mynychu addoli ar y cyd a threulio amser gyda'r cydlynydd addysg grefyddol a disgyblion CS a CA2.
Trefnu bod pob aelod o GYSAG (par o aelodau?) yn ymweld ag  x o ysgolion pob tymor.
Gwahodd athro/athrawes gynradd ac uwchradd i roi cyflwyniad 10 munud pob cyfarfod.

**Cyfarfod CCYSAGauC, Caerdydd, 10 Hydref 2013 / *Wales Association of SACREs meeting, Cardiff, 10 October 2013***

**Agenda**

1. Croeso / *Welcome*
2. Adfyfyrio tawel / *Quiet reflection*
3. Ymddiheuriadau / *Apologies*
4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, 19 Mehefin 2013 / *Minutes of meeting held in Caernarfon, 19 June 2013*
5. Materion sy'n codi / *Matters arising*
6. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2013 / *Report from the Executive Committee held on 4 Hydref 2013*
7. Gohebiaeth /*Correspondence*
8. U.F.A. / *A.O.B.*
9. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Gwynedd (Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon), 19 Mehefin 2013 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Gwynedd (Dafydd Orwig Chamber, Caernarfon),*** **19 June 2013 (10.30am – 3pm)**

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Bethan James<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Gill Vaisey<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward Evans<br>Carys Pritchard<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br><br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Carys Pritchard<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Aled Jones<br>Mary Parry<br><br>**Ceredigion**<br>Cyng. Lyndon Lloyd<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord<br>N.C. Richter | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord<br>Martin Evans-Jones<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Phil Lord<br><br>**Gwynedd**<br>Bethan James<br>Deian Evans<br>WMMeredeth<br>Ken Robinson<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Cllr Ernie Galsworth<br>Carys Pritchard<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Gill Vaisey<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br><br>**Powys**<br>John Mitson | **Rhondda Cynon Taf**<br>Carys Pritchard<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br><br>**Torfaen**<br>Helen Bevan<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Carys Pritchard<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones<br>Tania ap Siôn<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Ben Wigley REMW |

draft

| Cofnodion | Minutes |
| --- | --- |
| 1. **Cyflwyniad a chroeso / Introduction and welcome.** Croesawodd y Cadeirydd, Edward Evans, yr aelodau i'r cyfarfod, a chroesawodd hefyd Mr Selwyn Griffiths, cyn-Gadeirydd Cyngor Gwynedd a Chadeirydd cyfredol CYSAG Gwynedd. | 1. **Cyflwyniad a chroeso / Introduction and welcome.** Chair Edward Evans welcomed members to the meeting and welcomed Mr Selwyn Griffiths, past chair of Gwynedd County Council and current Chair of Gwynedd SACRE. |
| Diolchodd Mr Selwyn Griffiths i'r Cadeirydd, a chroesawodd yr aelodau i Wynedd, a ddisgrifiwyd ganddo fel un o ardaloedd harddaf Cymru. Pwysleisiodd Mr Griffiths ymrwymiad Cyngor Gwynedd i gynnal ei holl fusnes drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabu hefyd y diwylliannau gwahanol niferus a fodolai o gwmpas yr ardal. Yn gyn-athro a bellach yn gynghorydd, diolchodd Mr Griffiths i Bethan James am ei gwaith caled a'i hymroddiad i GYSAG Gwynedd fel un o ymgynghorwyr yr Awdurdod Lleol, a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd fel Arweinydd Systemau GwE.<br>Anerchwyd yr aelodau gan Gyfarwyddwr Addysg Gwynedd, Mr Dewi R Jones, a ategodd groeso'r Cynghorydd Griffiths. Siaradodd Mr Jones am y newid mewn agweddau tuag at Addysg Grefyddol, gan gyfeirio at y cyfnod pan gâi AG ei disgrifio'n aml fel un o'r 'pynciau Sinderela' oedd yn gorfod ymladd am eu lle ymhlith meysydd Mathemateg, gwyddoniaeth ac ieithoedd, er enghraifft. Llongyfarchodd athrawon, CYSAG'au a ChCYSAGauC am eu gwaith caled, eu gweledigaeth a'u hymrwymiad i'r pwnc, gan ychwanegu bod y disgrifiad hwn bellach wedi diflannu oherwydd eu gallu i ysbrydoli plant, a'u cefnogaeth i AG. | Mr Selwyn Griffiths thanked the Chair and welcomed members to Gwynedd, which he described as one of the most beautiful area of Wales. Mr Griffiths emphasised the commitment of Gwynedd County Council to conducting all business through the medium of Welsh. He also acknowledged the many different cultures around the area. A former teacher and now a councillor, Mr Griffiths thanked Bethan James for her hard work and commitment to Gwynedd SACRE as a Local Authority advisor and wished her well in her new role as a Systems Leader for GwE. Director of Education for Gwynedd, Mr Dewi R Jones addressed members, reiterating the welcome of Councillor Griffiths. Mr Jones spoke of the change in attitudes to Religious Education referring back to when RE was often described as one of the 'Cinderella subjects', which had to fight for her place within the fields of Maths, science and languages, for example. He congratulated teachers, SACREs and WASACRE for their hard work, vision and commitment to the subject, adding that due to their enthusiasm, their ability to inspire children and their support for RE, this description has now disappeared. |
| Cyfeiriodd Mr Jones at ddau gyhoeddiad yn ei anerchiad. Yr oedd y cyntaf gan y Dr Barry Morgan o Brifysgol Bangor (2013), "Thinking about how we will develop RE in the future", a'r ail oedd adroddiad Robert Hill | Mr Jones referred to two publications in his address. The first was by Dr Barry Morgan of Bangor University (2013) "Thinking about how we will develop RE in the future" and the second was the Robert Hill report |

draft

| | |
|---|---|
| a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (18 Mehefin 2013). Yn gryno, dywedodd Mr Jones fod AG yn llawer mwy na gwybodaeth yn unig, a phwysleisiodd bwysigrwydd Addysg Grefyddol a'r cyfoeth o brofiadau y gallai disgyblion eu cael yn yr ysgol, naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu yn yr ysgol gyfan — er enghraifft, cael amser i adfyfyrio a meddwl ac i ystyried safbwyntiau pobl eraill. Dywedodd Mr Jones ein bod yn caniatáu i ddisgyblion wneud hyn drwy Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Aeth yn ei flaen i ddweud bod athrawon AG yn greadigol yn eu cynllunio, ac y dylent barhau felly, a bod y modd yr oeddynt yn ysbrydoli plant yn rhan greiddiol o'r cynllunio hwnnw. Gan ddyfynnu o adroddiad Hill, meddai Mr Jones: "Y tu cefn i'r holl newidiadau, y pethau pwysicaf yw'r dysgu a'r profiadau, a safon yr addysgu. Rwy'n meddwl bod yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth yn para am byth, a bod yn rhaid ei wneud yn iawn os yw am gael unrhyw ddylanwad ar safonau." | published by Welsh Government (18 June 2013). In summary, Mr Jones said that RE is much more than just information and emphasised the importance of Religious Education and the wealth of experiences pupils can have in a school, either in the classroom or the whole school, for example, pupils having time to reflect and think and consider other people's viewpoints. Mr Jones said that through Religious Education and collective worship we are allowing pupils to do this. He went on to say that teachers of RE are, and should continue to be, creative in their planning, and the way that they inspire children is a core part of that planning. Quoting from the Hill report, Mr Jones said, "behind all the changes the most important thing is the learning and experiences and the standard of the teaching. I think what happens in the classroom lasts forever and has to be done properly to have any influence on standards." |
| Clôdd Mr Jones ei anerchiad drwy ddiolch i GCYSAGauC, ac anogodd barhad ymrwymiad y Gymdeithas i Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yng Nghymru. Wedi hynny, cafwyd cyflwyniad gan rai o ddisgyblion blwyddyn 8 Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Rhannodd y disgyblion yr hyn y buont yn ei wneud mewn gwersi AG yn ystod y tymor hwnnw. Cychwynnwyd drwy egluro'r pwnc, sef 'Cwestiynau sylfaenol ynghylch Islam'. I ddechrau yr oedd y disgyblion wedi gweithio ar amrywiaeth o dasgau ynglŷn â Phum Piler Islam, gan gynnwys pererindod Fwslimaidd a Ramadan. Yr oeddynt wedi gweithio mewn grwpiau yn y dosbarth i greu gwahanol ddulliau o ddysgu am Ramadan, a rhoddasant arddangosiad o rai o'r rhain, gan gynnwys gêm cydgysylltu geiriau a rap yr oeddynt | Mr Jones ended his address by thanking WASACRE and urged the continuation of the Association's commitment to Religious Education and Collective Worship in Wales. Members were then given a presentation by year 8 pupils from Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. The pupils shared what they had been doing in RE that term. They began by explaining the topic, which was 'Fundamental questions about Islam'. Initially pupils had worked on a variety of tasks about the Five Pillars of Islam, including Muslim pilgrimage and Ramadan. They had worked in groups in class to create different ways of learning about Ramadan and gave a demonstration of some of these, which included a word association game and a rap that they performed. Pupils also linked their unit of work to the skills they had |

draft

| | |
|---|---|
| wedi ei berfformio. Yn ogystal, cysylltodd y disgyblion eu huned gwaith â'r sgiliau yr oeddynt wedi eu datblygu wrth ddysgu. Diolchodd y Cadeirydd, Edward Evans, i'r disgyblion, gan gysylltu eu gwaith â'r sefyllfa gyfredol yng Ngwledydd Prydain. | developed during their learning.<br>Chair Edward Evans thanked the pupils and linked their work with the current situation in Britain. |
| 2. **Adfyfyrio tawel / Quiet reflection.** Rhannodd y Cadeirydd ddetholiad allan o'i hoff lyfr, 'The Wind in the Willows', a gofynnodd i'r aelodau ystyried eu hymatebion eu hunain i'r myfyrdod. | 2. **Adfyfyrio tawel / Quiet reflection.** The Chair shared an excerpt from his favourite book 'Wind in the Willows' and asked members to consider their own responses to the reflection. |
| 3. **Ymddiheuriadau / Apologies:** Meinir Loader, Helen Gibbon, Leslie Francis, Brian Rogers, Dafydd Treharne, Rameez Delpak, Gavin Craigen, Rheinallt Thomas, Vicky Thomas, y Cynghorydd Christine Abbas, Sue Cave, Huw George a Michael Gray. | 3. **Ymddiheuriadau / Apologies:** Meinir Loader and Helen Gibbon. Leslie Francis, Brian Rogers and Dafydd Treharne and Rameez Delpack, Gavin Craigen, Rheinallt Thomas, Vicky Thomas, Cllr Arwel Roberts, Christine Abbas, Sue Cave, Huw Edwards, Huw George, Jenny Garrard, Michael Gray. |
| 4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghasnewydd, 22 Mawrth 2013 / Minutes of meeting held in Newport, 22 March 2013.** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir. | 4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghasnewydd, 22 Mawrth 2013 / Minutes of meeting held in Newport, 22 March 2013** The minutes were accepted as a true record of the meeting. |
| 5. **Cyflwyniad PYCAG: Phil Lord, 'Y Marc Safon AG' / NAPfRE presentation:** Phil Lord, 'REQM' | 5. **Cyflwyniad NAPfRE:**<br>**NAPfRE presentation:** Phil Lord REQM |
| Rhoddodd Phil Lord y newyddion diweddaraf i'r aelodau am ddatblygiad y Marc Safon AG ar gyfer cyd-destun penodol Gymreig. Gan ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint, crynhodd themâu'r Marc Safon AG. Pwysleisiodd fod Cyngor AG Cymru a Lloegr, Ymddiriedolaeth Culham a Sant Gabriel, a'r Gymdeithas Genedlaethol, i gyd yn gefnogol i ddatblygiad y Marc Safon. Teimlai PL ei bod yn bwysig bod y Marc Safon AG ar gael hefyd i ysgolion yng | Phil Lord updated members on the development of the RE Quality Mark for a specifically Welsh context. Using a PowerPoint presentation, he summarised the themes of the RE Quality Mark. He emphasised that the RE Council for England and Wales, the Culham and St Gabriel's Trust, and the National Society are all supportive in the development of the Quality Mark. PL felt that it was important that the RE Quality Mark should also be available to |

draft

| | |
|---|---|
| Nghymru, ac yr oedd wedi bod yn gweithio gyda Mary Myatt i'w osod mewn cyd-destun a diwyg Cymreig. Yr oedd cynllun peilot wedi ei gynnal, gyda phedair ysgol yn cymryd rhan. Yr oedd y Marc Safon AG wedi ei sefydlu er mwyn: 1. Codi proffil AG mewn ysgolion. 2. Dathlu ymrwymiad i ragoriaeth mewn AG. 3. Hwyluso lledaeniad ar gyfer mesur, cynllunio a datblygu ansawdd addysgu a dysgu ym maes AG. 4. Symbylu ysgolion i gynyddu amrywiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu mewn AG er mwyn gwella safonau. 5. Darparu strwythur a fframwaith a fyddai'n galluogi esgobaethau a ChYSAG'au i fapio AG o ansawdd uchel. | schools in Wales and has been working with Mary Myatt to place it within a Welsh context and format. There has been a pilot in which four schools took part. REQM has been set up to: 1. Raise the profile of RE in schools. 2. Celebrate a commitment to excellence in RE. 3. Enable dissemination for measuring, planning and developing the quality of RE teaching and learning. 4. Encourage schools to increase the range and quality of teaching and learning in RE to improve standards. 5. Provide a structure and framework for dioceses and SACREs to map high quality RE. |
| Crynhodd PL y prif negeseuon mewn perthynas â'r Marc Safon AG:<br>• Yr oedd yn fan cychwyn da ar gyfer ysgolion ac adrannau AG, a allai ei ddefnyddio fel arf datblygiad proffesiynol ar eu cyfer hwy eu hunain neu ar gyfer adrannau eraill yn yr ysgol.<br>• Yr oedd yn gymorth i ganfod ysgolion da a rhannu arfer da ar draws ysgolion. | PL summarised the main messages in relation to the REQM:<br>• It is a good starting point for schools and RE departments, which can use it a tool for professional development for themselves or other departments in school.<br>• It helps to identify good schools and the sharing of good practice across schools. |
| Yr oedd PL wedi gweithio gyda Tania ap Siôn a Phwyllgor Gwaith CCYSAGauC ar ddiwygio'r meini prawf Seisnig ar gyfer y Marc Safon AG mewn cyd-destun Cymreig. Yr oedd athrawon o'r ysgolion a oedd wedi peilotio'r Marc Safon AG wedi darparu adborth manwl a chadarnhaol hefyd i aelodau mewn perthynas â'u profiadau. | PL had worked with Tania ap Sion and the WASACRE Executive in amending the English criteria for the REQM for a Welsh context.Teachers from the schools that had piloted the REQM also provided members with detailed and positive feedback in relation to their experiences. |
| Gofynnodd PL i aelodau CCYSAGauC a fuasent yn ystyried darparu cymorth ariannol gan y Gymdeithas ar gyfer cyfieithu dogfennau (oddeutu £500.00) a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Marc Safon drwy'r 22 CYSAG. Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar bwysigrwydd cyfieithu'r dogfennau, a | PL asked WASACRE members if they would consider the Association funding the translation of documents (approx. £500.00) and publicising the quality mark through the 22 SACREs. The Chair commented on the importance of the translation of the documents and Treasurer John Mitson |

draft

| | |
|---|---|
| chadarnhaodd y Trysorydd, John Mitson, fod CCYSAGauC mewn sefyllfa i ariannu hyn. Cytunodd yr aelodau y dylid darparu cyllid ar gyfer cyfieithu. Dywedodd PL y byddai'n gwneud cyflwyniad i gynhadledd AREAIC ar 1 Gorffennaf 2013, ac y byddai Mary Myatt yn darparu hyfforddiant ar 7 Hydref 2013 ar gyfer Aseswyr yng Nghymru. Yr oedd yn bwysig cael aseswyr hyfforddedig yng Nghymru a oedd yn gyfarwydd â'r cyd-destun Cymreig, a hefyd cael aseswyr cyfrwng Cymraeg. | confirmed that WASACRE was in a position to fund this. Members agreed that funding for translation should be provided. PL said that he would be presenting to the AREAC conference on 1 July 2013 and Mary Myatt will be delivering training on 7 October 2013 for Assessors in Wales. It is important to have trained assessors in Wales who are familiar with the Welsh context and also to have Welsh-medium assessors. |
| Cafodd y Cadeirydd gadarnhad gan PL fod y Marc Safon wedi ei beilotio yng Ngogledd Cymru, ac mai cost gwneud cais am asesiad y Marc Safon AG fyddai £450.00 yr ysgol. Cadarnhaodd PL yn ogystal fod y dyfarniad yn parhau am 3 blynedd, ac y byddai ar ysgolion angen ailymgeisio wedi'r cyfnod hwnnw; y gobaith oedd y byddent yn ceisio am ddyfarniad uwch. | The Chair confirmed with PL that it had been piloted in North Wales and the cost for applying for the REQM assessment would be £450.00 per school. PL also confirmed that the award lasts for 3 years and schools would need to re-apply after that period, hopefully for a higher award. |
| Diolchodd Carys Pritchard (Arweinydd Systemau Consortiwm Canol De Cymru) i PL a'r ysgolion am rannu eu profiadau. Yr oedd yn amlwg bod yr ysgolion wedi cael budd o hyn, ac nas gwelid yn faich ychwanegol. Dywedodd CP ei bod yn bwysig pwysleisio y byddai ysgolion yn gwerthfawrogi cymorth gyda hunanarfarnu, ac y croesewid dogfennau cyfrwng Cymraeg. Tynnodd CP sylw'n ogystal at yr angen i'r Marc Safon Cymreig gael ei labelu'n glir ar y wefan ar gyfer ysgolion Cymreig. Holodd Gill Vaisey ynghylch ysgolion na allai fforddio talu am y broses, ac mewn ymateb cadarnhaodd PL y byddai'r holl ddogfennau ar gael am ddim ar wefan y Marc Safon AG, er mwyn i ysgolion eu hasesu eu hunain heb orfod mynd drwy'r broses yn ffurfiol gydag asesydd. Fodd bynnag, os oeddynt yn dymuno i'r marc safon gael ei ddyfarnu | Carys Pritchard (Systems Leader for South Central Consortia) thanked PL and the schools for sharing their experiences. It was clear that the schools had benefited from this and that it was not perceived as an extra burden. She said that it was important to emphasise that schools would appreciate the benefit of help with Self Evaluation and Welsh-medium documents would be welcomed. CP also pointed out the need for the Welsh quality mark to be clearly labelled on the website for Welsh schools. Gill Vaisey asked about schools who could not afford to pay for the process, and in response PL confirmed that all the documents would be free on the REQM website for schools to assess themselves without having to pay to go through the process formally with an assessor. However, if they did want to be awarded the quality mark, payment would be |

draft

| | |
|---|---|
| iddynt, byddai angen tâl. | needed. |
| Awgrymodd aelod o Geredigion y gallai CYSAG'au lleol dynnu sylw'r ysgolion at y Marc Safon AG a'i hyrwyddo. Y ddolen a oedd i'w rhannu ag ysgolion unigol oedd www.reqm.org. Awgrymodd Bethan James y gallai hwn fod yn fformat da i GYSAG'au ei ddefnyddio eu hunain wrth fonitro AG, ac efallai y dylai CYSAG'au drafod hyn yn eu cyfarfodydd lleol. Diolchodd y Cadeirydd i Phil Lord a'r athrawon a fu'n gysylltiedig â'r Peilot am eu cyflwyniad a'u gwaith caled. | A Ceredigion member suggested that local SACREs could draw the schools' attention to the REQM and promote it. The link to be shared with individual schools is www.reqm.org. Bethan James suggested that this could be a good format for SACREs to use themselves when monitoring RE and perhaps SACREs should be discussing this at their local meetings. The Chair thanked Phil Lord and the teachers involved in the Pilot for their presentation and hard work. |
| 6. **Gohebiaeth /Correspondence.**<br>Darllenodd Libby Jones ymateb Leighton Andrews ynglŷn â'r Adolygiad cyfredol o'r Cwricwlwm yng Nghymru. Byddai'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Adolygiad yn cychwyn rywbryd ym Medi 2013, a chytunwyd y byddai Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn ymateb i'r ymgynghoriad ar ran CCYSAGauC oherwydd y cyfyngiadau ar amser a oedd yn deillio o symud dyddiad y prif gyfarfod nesaf i'r un diwrnod â'r gynhadledd. | 6. **Gohebiaeth /Correspondence.**<br>Libby Jones read out the response from Leighton Andrews regarding the current Curriculum Review in Wales. The consultation for the Review will be out some time in September 2013 and it was agreed that the WASACRE Executive Committee will respond to the consultation on behalf of WASACRE due to the time constraints of the next main meeting being moved to the same day as the conference. |
| 7. **Diweddariadau/Updates:** | 7. **Diweddariadau/Up-dates:** |
| **Adolygiad Thematig Estyn / Estyn Thematic Review.**<br>Darparodd Mary Parry'r wybodaeth ddiweddaraf. Cawsai'r adroddiad ei gyhoeddi'r diwrnod blaenorol (18.6.13), ac yr oedd ar gael ar wefan Estyn. Yr oedd tri Arolygydd wedi edrych ar Addysg Grefyddol statudol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 mewn 22 o ysgolion ar draws Cymru. Yr oedd hyn wedi cynnwys treulio un diwrnod ym mhob ysgol. Arsylwyd un wers yn CA3 (blwyddyn 9) ac un wers yn CA4 (blwyddyn 10). Edrychodd yr Arolygwyr ar ddogfennaeth, cynlluniau gwaith, a | **Adolygiad Thematig Estyn/ Estyn Thematic Review.**<br>An update was provided by Mary Parry. The report was published on the previous day (18.6.13) and is available on the Estyn website. Three inspectors looked at statutory Religious Education in key stages 3 and 4 in 22 schools across Wales. This consisted of one day in each school. One lesson in KS3 (year 9) and one lesson in KS4 (year 10) were observed. Inspectors looked at documentation, schemes of work, planning, and talked to Heads of Department and 10 pupils from KS3 and 10 pupils from KS4 |

draft

| | |
|---|---|
| chynllunio, a siarad â Phenaethiaid Adran, 10 disgybl o CA3 a 10 disgybl o CA4, gyda holiadur. Un o'r prif benawdau yn yr adroddiad hwn oedd bod AG yn fwy poblogaidd nag unrhyw bwnc arall nad oedd yn bwnc craidd. Yr oedd hyn yn galonogol, and yn amlygu agwedd gadarnhaol y disgyblion at Addysg Grefyddol. Un o'r prif negeseuon oedd bod disgyblion yn gweld gwerth y pwnc yn eu bywydau, ac yn teimlo y byddai AG yn eu helpu. Byddai Mark Campion yn siarad yn fanylach am yr adroddiad yn y gynhadledd. | with a questionnaire. One of the headlines of this report is that RE is a more popular subject than any subject that is not a core subject. This is encouraging and highlights the positive attitude of the pupils towards Religious Education. One of the main messages was that pupils saw the value of the subject in their lives and that they felt that RE would help them. Mark Campion will be speaking about the report in more detail at the conference. |
| Yr oedd chwech o argymhellion ar gyfer ysgolion a dau ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ar gyfer ysgolion, yr oeddynt yn ymwneud â:<br>• Chyflawniad bechgyn<br>• Cynnig cymhwyster drwy arholiad ar gyfer AG graidd er mwyn codi safonau<br>• Asesu athrawon yn CA3<br>• Tasgau mwy heriol ar gyfer disgyblion, er mwyn cyrraedd lefelau uwch<br>• Trefniadau cwricwlwm, staffio ac amserlennu i alluogi disgyblion i symud ymlaen o CA3 i CA4<br>• Cryfhau Hunanarfarnu<br><br>Ar gyfer Llywodraeth Cymru, yr oeddynt yn ymwneud â:<br>• Cyfleoedd ar gyfer DPP<br>• Cyhoeddi data ar gyfer AG | There were six recommendations for schools and two for the Welsh Government. For schools, these related to:<br>• Boys' achievement<br>• Offering an examination qualification for core RE to raise standards<br>• Teacher assessment at KS3<br>• More challenging tasks for pupils to achieve higher levels<br>• Curriculum, staffing and timetabling arrangements to enable pupils to make progress from KS3 to KS4<br>• Strengthening Self Evaluation<br><br>For Welsh Government, these related to:<br>• Opportunities for CPD<br>• Publishing data for RE |
| Rhai pwyntiau a godwyd gan aelodau oedd: A oedd gwella cyflawniad bechgyn yn broblem mewn AG yn unig? Yr oedd cysylltiadau cryf rhwng AG a llythrennedd, ac felly fe allai fod yn bwnc a oedd yn fwy poblogaidd gyda merched. Gellid gwneud mwy i wella safonau ymysg bechgyn. Efallai fod cynnwys y maes llafur yn allweddol i gynyddu diddordeb a chyflawniad bechgyn mewn AG. | Some points raised by members were: Is raising boys' achievement an RE only issue? There are strong links between RE and Literacy and therefore it may be a subject more popular with girls. More could be done to improve standards with boys. The syllabus content may be key to raising boys' interest and achievement in RE. |

draft

| | |
|---|---|
| Bu'n galonogol gweld yr adroddiad yn y 'Western Mail' ynglŷn ag Adolygiad Thematig Estyn. Yr oedd statws AG wedi codi, ar y cyfan. O ran ymateb yn briodol i agweddau penodol ar Adolygiad Estyn, yr oedd angen ymchwil er mwyn deall rhai o'r canlyniadau'n iawn.<br><br>Cytunwyd y byddai CCYSAGauC yn cylchredeg yr adroddiad ar Adolygiad Thematig Estyn i GYSAG'au, fel bod copi ohono ganddynt, ac y gallai gylchredeg yr adroddiad i ysgolion hefyd. Byddai copi'n cael ei osod ar wefan CCYSAGauC yn ogystal.<br><br>**Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o adroddiadau blynyddol CYSAG / Welsh Government review of SACRE annual reports.**<br>Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Tania ap Siôn. Yr oedd y broses ynglŷn ag Adolygiad Llywodraeth Cymru o adroddiadau CYSAG'au wedi ei thrafod mewn sawl cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith dros y blynyddoedd diweddar. Yr oedd y ddogfen adolygu gyfredol yn cwmpasu adroddiadau blynyddol 3 blynedd. Yr oedd yn ofynnol fod CYSAG'au yn cyflwyno'u hadroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru; a'r dogfennau cyflwynedig hyn oedd yn sail i gynnwys yr adolygiad. Yr oedd y ddogfen adolygu wedi ei rhannu, ar ffurf ddrafft, gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r ymgynghorwyr, a oedd wedi darparu adborth defnyddiol i Lywodraeth Cymru. Nid oeddem yn gwybod eto pa bryd y byddai'n cael ei chyhoeddi'n swyddogol.<br><br>Yr oedd y ddogfen adolygu ddrafft yn adlewyrchu golwg gadarnhaol a defnyddiol iawn ar GYSAG'au yng Nghymru, a'u meysydd gwaith. Yr oedd yn amlygu | It was encouraging to see the report in the Western Mail relating to the Estyn Thematic Review. The status of RE has increased on the whole. In terms of responding appropriately to particular aspects of the Estyn Review, research is needed to understand properly some of the results.<br><br>It was agreed that WASACRE would circulate the Estyn Thematic Review report to SACREs so that they have a copy and can also circulate the report to schools. A copy would also be placed on the WASACRE website.<br><br>**Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o adroddiadau blynyddol CYSAG/Welsh Government review of SACRE annual report**.<br>An update was provided by Tania ap Sion. The process relating to the Welsh Government Review of SACRE reports has been discussed in many Executive meetings over the past few years. The current review document covers 3 three years of annual reports. It is a requirement that SACREs submit their annual reports to Welsh Government and it is these submitted documents that inform the content of the review. The review document has been shared in draft format with the Executive and advisors, who have provided useful feedback to Welsh Government. We do not know as yet when it will be published officially.<br><br>The draft review document reflects a very positive and helpful view of SACREs in Wales and their areas of work. It highlights an awareness of the significant contribution |

draft

| | |
|---|---|
| ymwybyddiaeth o gyfraniad sylweddol CYSAG'au at Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Cafwyd cydnabyddiaeth o'r sefyllfa newidiol yng Nghymru a sut y byddai'n effeithio ar GYSAG'au. Y prif argymhellion i GYSAG'au oedd y dylent barhau i wneud yr hyn yr oeddent yn ei wneud er mwyn codi safonau a chynorthwyo ysgolion, monitro ysgolion, a darparu cyngor ynglŷn â dulliau dysgu a.y.b. ar gyfer eu Hawdurdodau Lleol, a sicrhau bod proses werthuso wedi ei sefydlu. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn trafod pwysigrwydd sicrhau bod Addoli ar y Cyd yn digwydd yn unol â gofynion y gyfraith. Yr oedd pwyslais ar gymorth gan GYSAG'au i Awdurdodau Lleol gyda'r broses Hunanwerthuso. Yr oedd nifer o gysylltiadau rhwng yr adolygiad hwn ac Adolygiad Thematig Estyn — er enghraifft, strategaethau mewn perthynas â chyflawniad bechgyn, y defnydd o ganlyniadau arholiadau, a'r defnydd pwrpasol o ddata. Yn olaf, dylai CYSAG'au adrodd ynghylch effeithiolrwydd y cynghorion a'r cymorth a roddwyd mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd. Cytunwyd bod hon yn ddogfen bwysig, er gwaethaf oed yr wybodaeth a oedd ynddi. Yr oedd llawer iawn yn yr adroddiad y buasai'n ddefnyddiol i GYSAG'au ei drafod. Cyn gynted ag y byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi, byddai CCYSAGauC yn trefnu ei bod ar gael i GYSAG'au er mwyn iddynt allu ymateb iddi. | of SACREs to Religious Education and Collective Worship. There has been recognition of the changing situation in Wales and how this will affect SACREs. The main recommendations to SACREs are to continue to do what they are doing in order to raise standards and to support schools, monitor schools and provide advice about teaching methods, etc to their Local Authorities, and to have in place an evaluation process. The report also talks about the importance of ensuring that Collective Worship takes place according to legal requirements. There is emphasis on SACREs supporting Local Authorities with the Self Evaluation process. There are a number of connections between this review and the Estyn Thematic Review, for example, boys' achievement strategies and the use of examination results and the purposeful use of data. Finally, SACREs should report on the effectiveness of the advice and support given in relation to Collective Worship. It was agreed that this is an important document despite the age of the information within it. There is a great deal in the report that SACREs can usefully discuss. As soon as the document is published, WASACRE will make it available to SACREs so that they can respond to it. |
| **Cynhadledd CCYSAGauC / WASACRE Conference**<br>Nodwyd y byddai Cynhadledd nesaf CCYSAGauC yn cael ei chynnal ar 10 Hydref 2013. | **CYSAGau Gynhadledd/WASACRE Conference**<br>The forthcoming WASACRE Conference was noted, taking place on 10 October 2013. |
| 8. **Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Mai 2013 / Report from the Executive Committee** | 8. **Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Mai 2013 / Report from the Executive Committee** |

draft

| | |
|---|---|
| **held on 16 May 2013**<br><br>Yr oedd yr aelodau wedi derbyn y crynodeb o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith gyda'u papurau.<br><br>9. **U.F.A. / A.O.B.**<br>Nid oedd unrhyw faterion eraill.<br>10. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting. Bellach bydd cyfarfod nesaf CCYSAGauC yn cael ei gynnal ar ddiwrnod Cynhadledd CCYSAGauC, sef dydd Iau, 10 Hydref 2013 (bydd y Gynhadledd yn dod i ben am 3.30pm a bydd cyfarfod byr o GCYSAGauC yn cael ei gynnal rhwng 3.45 a 4.45pm). Bydd y papurau ar gyfer y cyfarfod yn cael eu cylchredeg i aelodau gan eu CYSAG lleol. | **held on 16 May 2013**<br><br>Members received the summary of the Executive meeting with their papers.<br><br>9. **U.F.A. / A.O.B.**<br>There was no other business.<br>10. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date for next meeting. The next WASACRE meeting will now take place on the day of the WASACRE Conference on Thursday, 10 October 2013 (The Conference will finish at 3.30pm and a short WASACRE meeting will take place from 3.45-4.45pm). Papers for the meeting will be circulated to members by their local SACRE. |

draft

| **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol CCYSAGauC, 19 Mehefin 2013** | **WASACRE Annual General Meeting minutes, 19 June 2013** |
|---|---|
| 1. **Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghyffordd Llandudno ar 26 Mehefin 2012**<br>Minutes of the Annual General Meeting held in Llandudno Junction, 26 June 2012.<br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir. | 1. **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Llandudno Junction ar 26 Mehefin 2013**<br>Minutes of the Annual General Meeting held in Wrexham, 26 June 2012.<br>The minutes were accepted as a true record of the meeting. |
| 2. **Materion yn Codi / Matters Arising.**<br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi. | 2. **Materion yn Codi / Matters Arising.**<br>There were no matters arising. |
| 3. **Adroddiad CCYSAGauC am 2012–2013 / WASACRE Report for 2012–2013.**<br>Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad blynyddol i'r aelodau. Cadarnhawyd mai'r cyfnod yr oedd yn ymdrin ag ef oedd Haf 2012, Hydref 2012 a Gwanwyn 2013. Derbyniwyd yr adroddiad gan yr aelodau. Byddai'r adroddiad yn cael ei gylchredeg i GYSAG'au. | 3. **Adroddiad CCYSAGauC am 2012-2013 WASACRE Report for 2012-2013.**<br>The Chair presented the annual report to members. It was confirmed that the period it covers is Summer 2012, Autumn 2012 and Spring 2013. The report was accepted by members. The report will be circulated to SACREs. |
| 4. **Adroddiad y Trysorydd /Treasurer's Report.**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Trysorydd, John Mitson, a dynnodd sylw at y ffaith mai prif ffynhonnell incwm y Gymdeithas oedd tanysgrifiadau. Hyd y diwrnod hwnnw, yr oedd yr holl danysgrifiadau ac eithrio un wedi eu derbyn oddi wrth y CYSAG'au. Bu'r gwariant yn uwch y flwyddyn honno oherwydd yr hyfforddiant CA3 yr oedd CCYSAGauC wedi ei gynnig ar y cyd â'r consortia. Hefyd, bu'r treuliau'n uwch oherwydd i gostau gwasanaethau cyfieithu a threuliau o'r flwyddyn flaenorol gael eu cynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, bu'r gwariant £1469.31 yn fwy na'r incwm. Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yr oedd tri thanysgrifiad | 4. **Adroddiad y Trysorydd /Treasurer's Report.**<br>Treasurer John Mitson presented the report and pointed out that the main source of income for the Association is from subscriptions. To date all subscriptions, apart from one, had been received from the SACREs. Spending is higher this year due to the KS3 training offered by WASACRE in association with the consortia. Also, expenses are higher this year due to translation services and expenses from last year being included in this year's accounts. During the year, expenditure exceeded income by £1469.31. However, at the end of the financial year, three subscriptions had not been received and, if they had been paid at that point, this would have reduced the overspend in year by £1224.00, leaving an |

draft

| | |
|---|---|
| yn dal heb eu derbyn; pe baent wedi eu talu erbyn yr adeg honno, buasai'r gorwariant £1224.00 yn llai, gan adael gorwariant o £245.31 am y flwyddyn. Yr oedd hyn yn cymharu â thanwariant, yn ystod y flwyddyn 2011/2012, o £3384.66. Yr oedd y flwyddyn ariannol wedi dechrau gyda gweddill o £18812.88, ac wedi diweddu gyda gweddill o £17343.57. Yr oedd cyllid CCYSAGauC, felly, yn aros mewn cyflwr iach iawn, er bod lleihad o £1469.31 o gymharu â'r sefyllfa a fodolai ar ddiwedd 2011/2012. Yr oedd CCYSAGauC, felly, mewn sefyllfa gref i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig a oedd yn cynorthwyo CYSAG'au ac ysgolion.<br><br>Argymhellwyd y dylai tanysgrifiadau am y flwyddyn ariannol gyfredol godi 2.08%, a fyddai'n codi'r tanysgrifiad i £418.00 fesul CYSAG. Derbyniwyd hyn gan yr aelodau, a chytunodd yr holl aelodau a oedd yn bresennol y dylid cynnal y symiau treuliau. Nododd Phil Lord fod CCYSAGauC yn talu am 'Reflections' yn 'Newyddion AG', ond yr oedd rhai awdurdodau lle nad oedd modd derbyn 'Newyddion AG' gan nad oeddynt yn talu amdano. Cadarnhaodd John Mitson, y Trysorydd, fod CYSAG'au yn dal i feddu ar gopïau o 'Reflections' y gallent eu rhannu gyda'r awdurdodau hynny. Tynnodd Tania ap Siôn sylw at gofnodion y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â 'Newyddion AG' a'r cyfarfod a gynhaliwyd rhwng CCYSAGauC, 'Newyddion AG' a MAGC. Yr oedd trafodaeth ddechreuol gadarnhaol wedi ei chynnal, a byddai'r aelodau'n cael y newyddion diweddaraf am unrhyw ddatblygiadau. | overspend in year of £245.31. This compares with an under spend in year in 2011/2012 of £3384.66. The financial year commenced with a balance of £18812.88 and ended with a balance of £17343.57. The finances of WASACRE, therefore, remain in a very healthy condition, although they represent a reduction on the position at the end of 2011/2012 by £1469.31. WASACRE is, therefore, in a strong position to fund its planned activities that support SACREs and schools.<br><br>It was recommended that subscriptions for the current financial year should rise by 2.08%, which raises subs to £418.00 per SACRE. This was accepted by members and all members present agreed to maintain the expenses amounts. Phil Lord noted that WASACRE pays for Reflections in RE News but some authorities did not have access as they do not pay for RE News. John Mitson, Treasurer confirmed that SACREs still have copies of Reflections that they can share with those authorities. Tania ap Sion pointed to the Executive minutes with regard to RE News and the meeting that took place between WASACRE, RE News and REMW. A positive initial discussion had taken place and members would be kept abreast of any developments. |
| Gofynnodd John Mitson am i'r cyfrifon gael eu derbyn. Derbyniodd yr aelodau'r cyfrifon, a diolchodd y Cadeirydd i John Mitson am adroddiad clir a chryno ac am ei waith drwy gydol y flwyddyn. | John Mitson asked for the accounts to be accepted. Members accepted the accounts and the Chair thanked John Mitson for a clear and succinct report and his work throughout the year. |

draft

| | |
|---|---|
| 5. **Sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol / Outgoing Chair's comments**<br>Diolchodd y Cadeirydd, Edward Evans, i'r aelodau am y cyfle a'r fraint o fod yn Gadeirydd. Yr oedd yn credu mai'r unig beth oedd yn rhoi sefydlogrwydd i bobl oedd crefydd, a gorau po fwyaf y gallem hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth grefyddol. Dywedodd Edward ei fod yn hapus ei fod yn gallu bod yn rhan o hynny. Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Is-gadeirydd, Tania ap Siôn, symud i swydd y Cadeirydd. | 5. **Sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol / Outgoing Chair's comments**<br>Chair, Edward Evans thanked members for the opportunity and privilege of being Chair. He believes that the one thing that gives stability to people is religion and the more we can promote understanding of religious diversity the better. Edward said that he is happy that he can be a part of that. The Chair proposed that the Vice Chair, Tania ap Sion move to position of Chair. |
| 6. **Ethol Cadeirydd / Election of Chair**<br>Derbyniodd yr Is-gadeirydd, Tania ap Siôn, swydd y Cadeirydd. Diolchodd i Edward Evans am ei ymroddiad a'i waith ar ran CCYSAGauC dros y ddwy flynedd diwethaf. Pwysleisiodd y fraint o allu gwasanaethu fel Cadeirydd y Gymdeithas, a chydnabu'r cyfnod heriol a oedd o'n blaenau, pan fyddai gan GCYSAGauC rôl bwysig a chreadigol i'w chwarae. | 6. **Ethol Cadeirydd / Election of Chair**<br>Vice Chair, Tania ap Sion, took the position of Chair. She thanked Edward Evans for his commitment and work on behalf of WASACRE over the past two years. She emphasized the privilege of being able to serve as Chair to the Association and recognized the challenging times ahead where WASACRE would have an important and creative role to play. |
| 7. **Ethol Is-gadeirydd / Election of Vice-Chair**<br>Cafodd Gavin Craigen ei ethol i swydd Is-gadeirydd y Gymdeithas. | 7. **Ethol Is-Gadeirydd / Election of Vice-Chair**<br>Gavin Craigen was elected to the position of Vice Chair to the association. |
| 8. **Ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith / Election of members to the Executive**<br>Pwysleisiodd y Cadeirydd mai calonogol iawn oedd gweld bod cymaint o aelodau CYSAG'au yn fodlon cyflwyno'u henwau ar gyfer eistedd ar y Pwyllgor Gwaith. Yr oedd hyn yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar ganfyddiadau ynglŷn â ChCYSAGauC a'i gwaith. Yr oedd y penodiadau canlynol wedi eu gwneud:<br>Mark Brown (aelod o'r Pwyllgor Gwaith, CYSAG Conwy)<br>Mary Parry (aelod o'r Pwyllgor Gwaith, | 8. **Ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith / Election of members to the Executive**<br>The Chair emphasised that it had been very heartening to see so many SACRE members willing to put their names forward to sit on the Executive Committee. It reflects positively on perceptions of WASACRE and its work. The following appointments have been made:<br>Mark Brown (Executive member, Conwy SACRE)<br>Mary Parry (Executive member, Carmarthenshire SACRE) |

draft

| | |
|---|---|
| CYSAG Sir Gaerfyrddin) | |
| Ar gyfer y drydedd swydd ar y Pwyllgor Gwaith, cafwyd pleidlais gyfartal rhwng y Cynghorydd Michael Gray (CYSAG Caerffili) a'r Parch Roy Watson (CYSAG Blaenau Gwent). Gyda chaniatâd yr aelodau, byddai CCYSAGauC yn gofyn i GYSAG'au bleidleisio eilwaith ynglŷn â'r ddau ymgeisydd hynny'n unig, drwy e-bost. Byddai Libby Jones yn trefnu hyn gyda'r CYSAG'au. Cytunodd yr aelodau i hyn, a chynigiodd Edward Evans y dylem edrych ar y Cyfansoddiad mewn perthynas â'r mater hwn, er mwyn gallu cyfeirio ato yn y dyfodol. | For the third position on the Executive Committee, there was a tie between Cllr Michael Gray (Caerphilly SACRE) and Revd Roy Watson (Blaenau Gwent SACRE). With members' permission WASACRE will ask SACREs to vote again on just those two candidates by email. Libby Jones will arrange this with SACREs. Members agreed to this and Edward Evans proposed that we look at the constitution on this matter for future reference. |
| 9. **U.F.A. / A.O.B.**<br>Nid oedd unrhyw faterion eraill. | 9. **U.F.A. / A.O.B.**<br>There was no other business. |
| 10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting.**<br>Byddai manylion ynglŷn â'r Cyfarfod Blynyddol nesaf ym Mehefin 2014 yn cael eu cylchredeg wedi i benderfyniad gael ei wneud. Diolchodd y Cadeirydd i Gyngor a ChYSAG Gwynedd am groesawu'r cyfarfod, a diolchodd yn neilltuol i'r bobl a ganlyn:<br><br>Ken Robinson, Selwyn Griffiths, Dewi R. Jones (Cyfarwyddwr Addysg Gwynedd), Bethan James, y Cyfieithwyr a'r holl Aelodau. | 10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting.**<br>Details of the next AGM in June 2014 will be circulated when a decision is made. The Chair thanked Gwynedd County Council and SACRE for hosting the meeting and thanked in particular the following people:<br><br>Ken Robinson, Selwyn Griffiths, Director of Education for Gwynedd, Bethan James, Translators and all Members. |

draft

**Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru/**
***Wales Association of SACREs Executive Committee meeting***

**Dydd Gwener 4 Hydref 2013 10.30 yb yn Ty Dysgu, Nantgarw, Caerdydd / Friday 4 October 2013, 10.30 am at Ty Dysgu, Nantgarw, Cardiff**

***Minutes***

**Present: Tania ap Sion (Chair), Libby Jones (Secretary), Edward Evans, Michael Gray, Phil Lord, Bethan James, Mary Parry, Carys Pritchard, Vicky Thomas.**

**1. Croeso / *Welcome***
The Chair welcomed all members to the meeting.

**2. Ymddiheuriadau / *Apologies***
Gavin Craigen, Brian Rogers, Rheinallt Thomas.

**3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith diwethaf (16/05/2013) / *Minutes of the last executive meeting (16/05/2013)***
Minutes were accepted as a true record of the meeting. Proposed by Phil Lord and seconded by Vicky Thomas.

**4. Materion yn codi / *Matters arising***
Item 4. Matters arising. 6. It has been confirmed that The Minister for Education and Skills, Huw Lewis, will be attending the REC AGM in Cardiff in May 2014. 4. The Welsh Government review of SACRE reports will be available shortly (October/November) and as soon as we receive it, we will circulate it to SACREs. 5. REQM Wales. Eleven assessors will be trained on Monday 7 Oct 2013, including 4 Welsh-medium teachers. REQM are paying for 1 Welsh-medium school to be assessed as part of the Welsh pilot, in which Gareth Wyn Jones has agreed to take part. The documentation will be available soon. PL has a pdf promotional flyer which will soon be available bilingually. VT suggested that this should be raised at the WASACRE main meeting on the 10 October and the flyer promoted. Members felt that it was also important to promote the REQM resource as a method of Self Evaluation regardless of whether or not a school registers for an award. LJ will send the flyer to SACREs for inclusion on their agenda with a view to circulating the flyer to their schools. Item 5. WASACRE Minutes 22 March 2013. VT raises the importance of WASACRE being used as a vehicle for training RE teachers and offering RE CPD. It was agreed that this would be an Agenda item for the next Executive meeting. Item 6. Curriculum review. It was agreed to have this as an agenda item at the next Executive meeting. Item 7. Estyn Thematic Review. This document has been sent to SACREs. VT proposed that the Executive committee discuss the messages from this at the next Executive meeting and it will be placed as an agenda item. Item 10. RE News. TaS summarised the outcome of the meeting held in Llanidloes between representatives from WASACRE, RE News and REMW. We are now waiting for feedback from RE News and REMW. A fuller, more detailed discussion is needed in the Executive Committee once the other two bodies respond. It was agreed that an email would be sent to the other two bodies to move discussions forward as appropriate. Item 11- The Association's Annual Report. This document, along with the financial report will be circulated to SACREs on Monday.

**5. Cofnodion cyrfarfod CCYSAGauC, 19 Mehefin 2013 / *Minutes of the WASACRE meeting, 19 June 2013***
It was agreed that the draft minutes of the Association's main meetings will not be circulated to SACREs until they have been ratified by the Executive committee. LJ will write to SACREs to inform them of the

dates for the executive meetings a year in advance and indicating when they will receive the ratified, bilingual minutes from the last main meeting.

**6. Executive Committee Members**
Places on the Executive Committee were discussed following the resignation of Brian Rogers from the Executive and consent from Rhondda Cynon Taf SACRE. It was agreed that the Constitution needs to be looked at again and this will be an agenda item for next Executive meeting.

**7. Conference**
Conferences arrangements were discussed in a meeting held after the Executive meeting.

**8. Welsh Government**
TaS shared the outcomes of a meeting on 19 September 2013 with Nia Jones from Welsh Government, who has been given responsibility for RE. Nia will be WASACRE's link and contact person for Welsh Government in a reciprocal relationship and will meet representatives from the Executive Committee a couple of times a year and the wider group of the Executive once a year. Members also asked that she is invited to attend WASACRE meetings as an observer and NAPfRE meetings in the same capacity as Denize Morris, her predecessor. This was seen as a very positive step forward towards developing and strengthening a close relationship with Welsh Government.

**9. Gohebiaeth /** ***Correspondence***
Brian Rogers sent correspondence regarding his position on the Executive committee and correspondence has also been received from Rhondda Cynon Taf SACRE to confirm their support for his decision.

**10. Agenda ar gyfer cyfarfod y Gymdeithas y Caerdydd yn 10 Hydref 2013 /** ***Agenda for the Association meeting in Cardiff on 10 October 2013***
Minutes from this Executive meeting will be available at the WASACRE main meeting on Thursday, 10 Oct 2013. The agenda will cover only the usual main agenda items, although issues of importance will be highlighted in the minutes from the last main meeting and the Executive meeting.

**11. U.F.A.** ***/ A.O.B.***
Proposal of a Primary Thematic Review by VT. It was agreed that this would be discussed with Nia Jones from Welsh Government.

VT: Concern was expressed about the lack of comments in Estyn Inspection reports regarding Collective Worship. Discussion ensued resulting in the question, is there anything WASACRE can do to support SACREs in monitoring Collective Worship? This will become part of the discussion about WASACRE's work in training and supporting teachers and schools, as well as being a separate agenda item.

**12. Dyddiadau cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Gwaith /** ***Dates of the next Executive meetings***

Tuesday 4 February 2014. Venue to be decided.
Wednesday, 14 May, 2014. Venue to be decided.

LJ will circulate these dates to all Executive members.

**CYMDEITHAS CYSAG'AU CYMRU**

**CYFARFOD BLYNYDDOL — Mehefin 19eg, 2013**

**ADRODDIAD GAN: Y Trysorydd**

**PWNC: Adroddiad am y flwyddyn ariannol 2012/2013**

---

**ADRODDIAD AR GYFER: Gwybodaeth a Phenderfyniad**

---

## CYFRIFLEN 2012/2013

Ynghlwm, ar ffurf atodiad i'r adroddiad hwn, y mae'r Gyfriflen archwiliedig am y flwyddyn ariannol 2012/2013. Bydd yr Aelodau'n nodi i'r gwariant fod £1469.31 yn fwy na'r incwm yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yr oedd tri thanysgrifiad heb ddod i law; pe baent wedi eu talu erbyn y dyddiad hwnnw, byddai hynny wedi peri lleihad o £1224.00 yn y gorwariant yn ystod y flwyddyn, gan adael gorwariant o £245.31 yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â thanwariant o £3384.66 yn y flwyddyn 2011/2012. Cychwynnwyd y flwyddyn ariannol gyda gweddill o £18812.88, ac yr oedd y gweddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £17343.57. Mae cyllid CCYSAGauC, felly, yn parhau i fod mewn cyflwr iach iawn, er ei fod yn ostyngiad o £1469.31 o'i gymharu â'r sefyllfa ar ddiwedd 2011/2012. Mae CCYSAGauC, felly, mewn sefyllfa gref i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig.

a) **Derbyniadau**

Megis mewn blynyddoedd blaenorol, prif ffynhonnell incwm CCYSAGauC yn ystod 2012/2013 oedd y tanysgrifiadau blynyddol a dalwyd gan aelod-GYSAG'au. Bydd yr Aelodau'n cofio i benderfyniad gael ei wneud, yng Nghyfarfod Blynyddol CCYSAGauC yn 2001, i godi lefel y tanysgrifiadau yn unol â lefel chwyddiant bob blwyddyn. Y tanysgrifiad blynyddol ar gyfer 2012/2013, felly, oedd £408, sydd wedi deillio ar incwm o £7752. Mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli tanysgrifiadau 19 o GYSAG'au, gan nad oedd 3 ChYSAG wedi talu eu tanysgrifiadau erbyn 31ain Mawrth, 2013. Pleser yw gallu adrodd bod dau danysgrifiad pellach wedi eu talu erbyn hyn, a bydd y tanysgrifiadau hwyr yn cael eu cofnodi yng nghyfrifon 2013/2014. Yn anffodus, er i nifer o lythyrau atgoffa gael eu hanfon, y mae un CYSAG yn dal heb dalu ei danysgrifiad am 2012/2013.

Ffynhonnell incwm arall CCYSAGauC oedd llog banc, ac yr oedd hwn yn £3.80 yn 2012/2013, sef yr un swm ag yn 2010/2011 a 2011/2012. Gobeithir y bydd y llog sy'n cael ei dalu ar gyfrifon CCYSAGauC yn gwella yn y dyfodol, ond bydd cryn amser cyn y derbynnir incwm sylweddol drwy log banc.

b) **Gwariant**

Yn ystod 2012/2013, bu'r prif feysydd gwariant fel a ganlyn:–

Un gweithgarwch pwysig i GCYSAGauC yn ystod 2012/2013 oedd ariannu hyfforddiant mewn darparu Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3; cyfanswm y gost oedd £4096.38. Cafodd hyn ei ddarparu drwy drefniadau consortiwm ar draws Cymru gan Mr Gavin Craigen a Ms Llinos Rees, a derbyniwyd adborth rhagorol. Mae hon yn enghraifft bwysig o'r rôl y gall CCYSAGauC ei chwarae o ran ategu Addysg Grefyddol, ac roedd yn golygu mai'r unig gostau yr oedd yn rhaid i ysgolion eu hariannu oedd costau athrawon llanw er mwyn rhyddhau eu hathrawon eu hunain, a'r costau teithio ar gyfer cyrraedd y lleoliadau hyfforddi.

Yn ystod y flwyddyn, talwyd y swm o £642.51 er mwyn cynnal gwefan CCYSAGauC. Bydd yr Aelodau'n cytuno bod gwefan CCYSAGauC yn adnodd ardderchog, sydd wedi bod yn werthfawr o ran codi proffil y sefydliad.

Yr oedd yr honorariwm a dalwyd i'r Ysgrifennydd yn £1500. Bydd yr Aelodau'n cofio bod gan yr Ysgrifennydd hawl i dderbyn honorariwm o £1500 y flwyddyn, a gwnaed y taliad hwn unwaith eto yn 2011/2012. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ad-daliad o gostau ysgrifenyddol a chostau llungopïo a chylchredeg papurau yn ystod y flwyddyn, a rhagwelir y bydd taliad sylweddol yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, mae costau wedi eu lleihau drwy gylchredeg papurau ar gyfer cyfarfodydd yn electronig, a thrwy osod papurau a dogfennau ar y wefan. Fe welir bod taliad o £375.00 wedi ei wneud, yn ystod y flwyddyn, mewn perthynas â'r honorariwm ysgrifenyddol ar gyfer 2009/2010. Cyfeiriwyd at hyn yn Adroddiad y Trysorydd i Gyfarfod Blynyddol CCYSAGauC yn 2011/2012, pan nodwyd bod y siec, a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2009/2010, heb ei chyflwyno i'w thalu. Pleser yw gallu adrodd bod cyfeiriad post y derbynnydd wedi ei eglurhau, a bod y taliad wedi ei wneud erbyn hyn.

Cafwyd traul bellach, yn ystod y flwyddyn, mewn cysylltiad â chostau cynnull cyfarfodydd CCYSAGauC. Bu'r draul hon yn gyfanswm o £1585.73, o'i chymharu â £517.53 yn 2011/2012 ac £871.73 yn 2010/2011, ac mae'n adlewyrchu cyfarfodydd tymhorol CCYSAGauC a'i Phwyllgor Gwaith. Er bod costau cynnal cyfarfodydd yn codi, mae'r costau'n arbennig o uchel eleni oherwydd i rai o'r anfonebau am gostau yr aethpwyd iddynt ar gyfer cyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2011/2012 wedi dod i law yn y flwyddyn ariannol gyfredol, gan achosi i'r gost derfynol fod dros £1000 yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm costau hurio ystafelloedd oedd £168.37, o'i gymharu â £90.20 yn 2011/2012, tra bod cyfanswm cost cyfieithu dogfennau'n £1417.36, o'i gymharu â £427.33 yn 2011/2012.

Y swm a wariwyd ar deithio/llety Swyddogion yn 2012/2013 oedd £675.35, o'i gymharu â £380.25 yn 2011/2012. Mae hyn yn gynnydd sylweddol, ond mae'r costau hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ôl nifer y cyfarfodydd a fynychir.

Yn ystod 2012/2013, mae CCYSAGauC wedi parhau i gyfrannu tuag at gostau cyhoeddi ‘REflections’ oddi mewn i ‘Newyddion AG’, a chylchredeg copïau unigol o ‘REflections’ i'w cynnwys yn y casys cadw y mae

CCYSAGauC yn eu cyflenwi i'r holl GYSAG'au. Yr oedd yr anfoneb a dderbyniwyd am 2012/2013 yn £510.14, sef codiad o 2% ar yr anfoneb am £500.14 a dderbyniwyd yn 2011/2012. Yr oedd y ffigwr hwn yn ddisgwyliadwy, gan mai'r arfer presennol yw i'r swm a gyfrennir at 'Newyddion AG' godi, o flwyddyn i flwyddyn, yn ôl yr un ganran ag a gymhwysir at y tanysgrifiad blynyddol.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae CCYSAGauC wedi talu cyfanswm o £240.00 mewn tanysgrifiadau. Mae hyn yn cynnwys talu'r tanysgrifiad i'r Fforwm Ewropeaidd ar gyfer Athrawon AG, a thanysgrifiadau 2012 a 2013 i'r Rhwydwaith Rhyng-ffydd. Y rheswm y gwnaed dau daliad eleni yw bod y ddwy anfoneb wedi eu derbyn yn yr un flwyddyn ariannol. Ni wnaed taliad am 2012/2013 i Gyngor AG Cymru a Lloegr, gan na dderbyniwyd yr anfoneb tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y taliad hwn yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn ariannol 2013/2014.

Gwahoddir yr Aelodau i dderbyn a mabwysiadu'r gyfriflen atodedig.

## TANYSGRIFIADAU BLYNYDDOL 2013/2014

Wrth ystyried tanysgrifiad blynyddol priodol fesul CYSAG am aelodaeth o GCYSAGauC yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/2014, bydd yr Aelodau'n cofio i benderfyniad gael ei wneud yng Nghyfarfod Blynyddol CCYSAGauC yn 2001 y byddai'r tanysgrifiad i GCYSAGauC, o hynny ymlaen, yn cael ei godi'n unol â chwyddiant.

Mae'n bwysig i GCYSAGauC ddilyn yr arferiad hwn er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ddiwallu costau parhaus gweithgareddau CCYSAGauC, gan gynnwys talu treuliau, costau ysgrifenyddol, treuliau swyddogion, honoraria swyddogion, a'r cyfraniad at gost cyhoeddi 'REflections' yn 'Newyddion AG'. Yn ychwanegol at hynny, mae ar GCYSAGauC angen adnoddau digonol i ddiwallu costau digwyddiadau Cymru Gyfan pellach, gan gynnwys y Gynhadledd y bwriedir ei chynnal yn Hydref 2013, ac er mwyn galluogi'r Gymdeithas i gymryd rhan mewn mentrau eraill i ategu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd ar draws Cymru, megis yr hyfforddiant diweddar ar Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3. Er bod cyllid CCYSAGauC mewn cyflwr iach ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod gweddill sylweddol yn cael ei gynnal os yw CCYSAGauC i allu trefnu digwyddiadau cenedlaethol pellach gyda hyder.

Yng ngolau'r uchod, a'r penderfyniad yng Nghyfarfod Blynyddol 2001 y byddai'r tanysgrifiad blynyddol i GCYSAGauC yn cael ei godi'n unol â chwyddiant o hynny ymlaen,

**ARGYMHELLIR** y dylai'r tanysgrifiad blynyddol fesul CYSAG am aelodaeth o GCYSAGauC yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/2014 gael ei bennu'n £417, sef codiad o 2.08% ar danysgrifiad 2012/2013.

## TALU TREULIAU

Bydd yr Aelodau'n cofio i'r trefniadau canlynol ar gyfer talu treuliau gael eu cytuno yng Nghyfarfod Blynyddol CCYSAGauC yn 2012:–

I. Talu 45 ceiniog y filltir i swyddogion sy'n ymgymryd â busnes ar ran CCYSAGauC pan na allant hawlio'r gost oddi wrth eu CYSAG'au lleol, a gwneud ad-daliad ar yr un lefel i siaradwyr sy'n cyfrannu at gyfarfodydd CCYSAGauC;

II. ad-dalu i swyddogion, mewn perthynas â chynnal busnes CCYSAGauC, gostau gwirioneddol parcio pan eir iddynt;

III. pan ddefnyddir cludiant cyhoeddus yn hytrach na char preifat, ad-dalu'r prisiau trên/bws gwirioneddol hyd at lefel y pris safonol, ar y ddealltwriaeth y manteisir ar drefniadau tocyn arbed ble bynnag y bo hynny'n bosibl;

IV. ad-dalu costau cynhaliaeth mewn perthynas â swyddogion CCYSAGauC a siaradwyr mewn cyfarfodydd CCYSAGauC, ar y lefelau canlynol:–

- brecwast — £4.50 (er mwyn bod yn gymwys am lwfans brecwast, rhaid i swyddog fod wedi gadael cartref cyn 7.00am);
- cinio canol dydd — £6.00 (er mwyn bod yn gymwys am lwfans cinio canol dydd, rhaid i swyddog fod oddi cartref cyn hanner dydd ac ar ôl 2.00pm);
- te — £2.50 (er mwyn bod yn gymwys am lwfans te, rhaid i swyddog fod oddi cartref tan ar ôl 6.30pm);
- cinio gyda'r nos — £7.50 (er mwyn bod yn gymwys am lwfans cinio gyda'r nos, rhaid i swyddog fod oddi cartref tan ar ôl 8.30pm);

V. ad-dalu costau gwirioneddol llety dros nos, ar y ddealltwriaeth bod y costau yr eir iddynt yn rhai rhesymol; a

VI. mewn perthynas ag athrawon sy'n cael eu rhyddhau o'r ysgol er mwyn gwneud cyflwyniadau mewn cyfarfodydd o GCYSAGauC, bydd CCYSAGauC yn ariannu darpariaeth lanw am hyd at un diwrnod llawn.  Os digwydd i hyn brofi'n annigonol, rhaid cysylltu'n fuan â'r Trysorydd, a fydd â’r hawl i gytuno ar lefel uwch o ddarpariaeth lanw gyda naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd.

**ARGYMHELLIR** y dylid cynnal y trefniadau uchod, a gytunwyd ar gyfer 2012/2013, am y flwyddyn 2013/2014.

## WALES ASSOCIATION OF SACRES
## STATEMENT OF ACCOUNTS 2012/2013

**RECEIPTS**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Annual Subscription 2011/2012 | | 400.00 | |
| Annual Subscriptions 2012/2013 | | 7752.00 | |
| Bank Interest | | 3.80 | |
| Total Receipts | | | **8155.80** |

**EXPENDITURE**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Meeting Expenses: | | | | |
| Room Hire | 168.37 | | | |
| Translation of Documents | 1417.36 | | | |
| | | 1585.73 | | |
| Support for website | | 642.51 | | |
| Secretary's Honorarium (2009/2010) | | 375.00 | | |
| Secretary's Honorarium | | 1500.00 | | |
| Key Stage 3 Religious Education Training | | 4096.38 | | |
| Officers Travel | | 675.35 | | |
| Contribution to RE News | | 510.14 | | |
| Subscriptions: | | | | |
| EFTRE | 90.00 | | | |
| Interfaith Network (2012) | 75.00 | | | |
| Interfaith Network (2013) | 75.00 | | | |
| | | 240.00 | | |
| Total Expenditure | | | 9625.11 | |
| LESS Excess of Expenditure over Receipts | | | 1469.31 | |
| | | | | **8155.80** |

**BALANCE SHEET AT 31/3/13**

| | | |
|---|---|---|
| Balance at 31/3/12 | 18812.88 | |
| LESS | | |
| Excess of Expenditure over Receipts | 1469.31 | |
| Balance at 31/3/13 | | **17343.57** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Represented by: | | | |
| Bank balances at 31/3/13: | | | |
| Business Money Manager Account | 5451.51 | | |
| Community Account | 15988.44 | | |
| | | 21439.95 | |
| LESS | | | |
| 2 cheques drawn and not presented on 31/3/13 | | 4096.38 | |
| | | | **17343.57** |

**Audited and found correct:**

Signed:.................................... Date: 16/6/13.

This page is intentionally left blank

**Adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas, 2012 – 2013**

1. Cyfarfu'r Gymdeithas deirgwaith: 26 Mehefin 2012 yng Nghyffordd Llandudno, 23 Tachwedd 2012 ym Merthyr Tudful, a 22 Mawrth 2013 yng Nghasnewydd. Rydym yn ddiolchgar i'r CYSAG'au a'r awdurdodau lleol a'n croesawodd am eu cefnogaeth hael a'u croeso.

2. Cyfarfu'r Pwyllgor Gwaith deirgwaith, yng Nghaerdydd: 16 Hydref 2012, 6 Chwefror 2013, a 16 Mai 2013.

Bu gan y Pwyllgor Gwaith raglen lawn drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys:

(a) gweithio gyda Llywodraeth Cymru mewn rôl gynghorol yn ystod y gwaith o gynhyrchu'r ddogfen, *Review of SACRE Reports*;

(b) ymateb i ymgynghoriad gan Estyn mewn perthynas ag Adolygiad Thematig Estyn o Addysg Grefyddol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 (gan gydnabod bod y penderfyniad i gynnal adolygiad thematig o'r pwnc wedi deillio o gais a wnaed i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau gan y Gymdeithas);

(c) cynllunio cynhadledd nesaf y Gymdeithas ar gynhelir yn Hydref 2013; bydd yn cynnwys, fel siaradwyr, Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a Mark Campion o Estyn;

(d) darparu hyfforddiant cenedlaethol, ar gyfer athrawon uwchradd AG, yn y defnydd o lefelau mewn AG yng nghyfnod allweddol 3; yr oedd hyn yn ymateb i anghenion a nodwyd gan y Gymdeithas o ganlyniad i broses Llywodraeth Cymru o safoni cyfnod allweddol 3;

(e) trafod a monitro datblygiadau yng Nghymru sy'n arwyddocaol i rôl CYSAG'au a'u dyletswydd statudol i fonitro a chynorthwyo Addysg Grefyddol, megis y trefniadau rhanbarthol newydd ynglŷn â chonsortia a'r adolygiad o'r cwricwlwm;

(f) cymryd rhan yng ngwaith cyrff sy'n berthnasol i Addysg Grefyddol y tu hwnt i Gymru, megis Cyngor AG Cymru a Lloegr a'r Fforwm Ewropeaidd ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol;

(g) gweithio gyda Chyngor AG Cymru a Lloegr i ddatblygu a threialu fersiwn wedi'i addasu o'r Marc Safon AG yng Nghymru.

Drwy gydol y flwyddyn, mawr werthfawrogwyd y berthynas gefnogol sy'n bodoli rhwng y Gymdeithas a PYCAG.

**6. Cyfrifon.** Yn ystod y flwyddyn, bu'r incwm £3384.66 yn fwy na gwariant; yr oedd hyn yn welliant ar y sefyllfa yn 2010/11, pan fu'r incwm £2184.37 yn fwy na gwariant.

Cychwynnwyd y flwyddyn ariannol gyda gweddill o £14939.22, ac yr oedd y gweddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £18812.88. Arhosodd cyllid CCYSAGauC, felly, mewn cyflwr iach, ac mae hyn wedi cynorthwyo CCYSAGauC i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig am y flwyddyn.

Prif ffynhonnell incwm CCYSAGauC yn ystod 2011/12 oedd tanysgrifiadau blynyddol a dalwyd gan aelod-GYSAG'au. Parhaodd lefel y llog banc i fod yn isel. Derbyniodd yr aelodau argymhelliad y Trysorydd y dylai'r tanysgrifiad godi o £400 i £408.

**7. Aelodau newydd y Pwyllgor Gwaith.** Yng Nghyfarfod Blynyddol haf 2012, cadarnhawyd bod Bethan James wedi cymryd lle Gill Vaisey fel cynrychiolydd PYCAG ar y Pwyllgor Gwaith. Cafodd Phil Lord (CYSAG Sir Ddinbych) ei ethol, a Rheinallt Thomas (CYSAG Ynys Môn) ei ailethol, i'r Pwyllgor Gwaith am y cyfnod 2012–2015.

**8. Cyflwyniadau gan PYCAG a CCYSAGauC.** Derbyniodd y Gymdeithas y cyflwyniadau diddorol a gwerthfawr canlynol:

- CYSAG'au a'r Gymuned Leol: arolwg CCYSAGauC gan Tania ap Siôn
- Agweddau Pobl Ifanc at Amrywiaeth Grefyddol, gan yr Athro Leslie Francis
- Addysg Bellach: Addysg Grefyddol a Chaplaniaeth, gan Jonathan Martin ac Andrew Morton
- Addysg Grefyddol yn y Sector Addysg Uwch, gan Lynda Maddock
- Hyfforddiant CA3 cenedlaethol ynglŷn â gweithredu lefelau mewn Addysg Grefyddol, gan Gavin Craigen
- Y Marc Safon Addysg Grefyddol, gan Phil Lord
- Cyflwyniadau gan ymgynghorwyr ynglŷn â'r Cyfnod Sylfaen